# Côrdydd

# Casgliad o froliant y côr

***Côr o leisiau ifanc yn perfformio dewis diddorol o gerddoriaeth clasurol a chyfoes***



**Côrdydd**

Mae côr cymysg newydd yng Nghaerdydd ers dechrau'r flwyddyn sef CÔRDYDD! Fe'i ffurfiwyd gan nifer o gyn-ddisgyblion Glantaf a chyn-fyfyrwyr Prifysgol Caerdydd ac mae croeso i unrhyw un dros ddeunaw ymuno â'r côr hwn. Ar hyn o bryd maen nhw'n edrych am fwy o faswyr a thenoriaid, felly ddynion, os ydych yn gallu canu mewn tiwn beth am ymuno? Maen nhw'n ymarfer yn Festri Capel Salem Treganna bob nos Iau am 7.30 dan arweiniad Sioned James. Am fwy o fanylion ffoniwch 07971917851.



• Trefnodd Bwyllgor Codi Arian Eisteddfod yr Urdd yn y Mynydd Bychan gyngerdd yn Ysgol Glantaf ar nos Wener, 10 Tachwedd. Cyflwynwyd y noson gan Arfon Haines Davies gyda Chôr Merched Canna a Chôr Cymysg Côrdydd yn cyfrannu eitemau a'r unawdwyr oedd Heather Jones a Rhian Owen.

Mai 2001

## Côrdydd

**Sioned James**
**Conductor**

Côrdydd is a vibrant young choir that was founded just over two years ago. It came together after a group of youngsters in Cardiff all believed that there was a gap in the choir market – they wanted to be part of an energetic, social but professional choir. And thereafter came the birth of Côrdydd! The Choir has grown to about 80 members, with new members continuously flooding in, all between the ages of 22 and 34. Côrdydd has performed regularly around the Cardiff area, often presenting concerts for charities. The highlight of its first year was performing *The Young Messiah* in front of an audience of 500, with all the proceeds going to the Urdd Eisteddfod. Côrdydd has appeared on S4C on several occasions, most recently in Benjamin Britten's opera *The Little Sweep*. In August 2001 Côrdydd came second out of eight choirs in a prestigious competition at the National Eisteddfod. Côrdydd has an increasingly demanding calendar for the year ahead – trips are planned as well as numerous concerts and prestigious competitions. The Choir's repertoire spans from the Baroque and Classical eras to the modern (we are avid Rutter fans!) and includes Welsh folk songs and gospel numbers.



2003

Ebrill y deuddegfed yng Nghaerdydd - dwy ffeinal, a'r cyffro'n heintus wrth ddisgwyl y diwrnod mawr. Ers misoedd, roeddem wedi bod yn dilyn trywydd Clwb Rygbi Cymry Caerdydd i'w ffeinal yn Stadiwm y Mileniwm, a'r achlysur wedi ei glustnodi yn ein dyddiaduron yn barod. Ond rhaid oedd newid ein cynlluniau pan ddaeth y newyddion fod ein côr ni, Côrdydd, drwyddo i ganu yn ffeinal Cystadleuaeth Corau Radio Cymru yn Neuadd Dewi Sant ar yr un dyddiad. Roedd diwrnod llawn cynnwrf ar y gorwel.

Mawr fu'r paratoi ar gyfer y gystadleuaeth gan y côr. Yn gyntaf, roedd angen twtio a chaboli'r darnau a ganwyd yn y rowndiau blaenorol. Ond rhaid oedd torchi llewys a newid ger er mwyn dysgu darn

comisiwn, a hynny mewn ychydig wythnosau. Tipyn o her, yn enwedig a'r darn, `Atgofion' gan Richard Elfyn, yn un nodweddiadol fodern yn llawn cymalau a chynganeddion annisgwyl. Rhaid cyfaddef ein bod ni'n gôr digon hamddenol fel arfer gyda'r pwyslais lawn cymaint ar y cymdeithasu a'r canu - polisi creiddiol i lwyddiant y côr er clod i Sioned James, ein harweinyddes. Ond rhaid oedd ymateb i'r her. Rhoddwyd recordiad personol o'r gan ar CD i bob aelod, a chyfarwyddyd pendant ein bod i wrando arni bob cyfle posib a' i dysgu - yn y gwaith, yn y car, yn y gwely. . . !

Doeddem ni ddim yn gwybod beth i'w ddisgwyl ar y noson. A ninnau'n gôr cymharol newydd, roeddem yn ymwybodol ein bod yn cystadlu yn erbyn corau profiadol a oedd wedi hen ennill eu plwyf. Felly mentro a meddwl agored wnaethon ni, gyda Sioned yn rhoi'r pwyslais ar fwynhau a chanu'n gorau. A dyna a ddigwyddodd. Mwynhau am 17 munud ar lwyfan Neuadd Dewi Sant, a phawb yn gwneud eu gorau er parch i Sioned a'i gwaith caled. Hefyd, roedd bois y clwb rygbi wedi ennill eu ffeinal nhw yn y prynhawn, felly roedd hyd yn oed mwy o fin ar ein hawch cystadleuol. Byddai dathlu'r dwbwl yn golygu dwywaith y dathlu!

Mae'r gweddill yn hanes. Buddugoliaeth i'r côr, a ninnau'n gorfoleddu. Penwythnos mawr oedd hwnnw yng Nghaerdydd, a'n `Hatgofion' ninnau, chwedl cân Richard Elfyn, yn rhai melys. Mae ein dyled yn fawr i Sioned am ei hymroddiad, ei hamynedd a'i diffyg cwsg! Ond mae arnom ddyled hefyd i drigolion Caerdydd am eu cefnogaeth i'r c6r ers ein sefydlu dair blynedd yn ôl. A gyda'r gofid diweddar yn y wasg am segurdod Cymry ifanc Caerdydd, braf yw gallu adrodd bod digwyddiadau Ebrill y deuddegfed yn dystiolaeth bendant bod peth gweithgarwch a chyfrannu'n ôl yn rhan o'r cymdeithasu a'r joio yn y ddinas fawr.

Mari Watkin

## Côrdydd yn codi llais

Cystadleuaeth wefreiddiol

Ebrill 2003

Mewn noson wefreiddiol yn Neuadd Dewi Sant, Caerdydd, nos Sadwrn, Ebrill 12, 2003, daeth Côrdydd o Gaerdydd i frig Cystadleuaeth Corau BBC Radio Cymru 2003.



Y pedwar côr oedd yn brwydro am y teitl oedd Côr Caerdydd, Côrdydd, Côr Adlais o Sir Fôn a Chantorion Rhos.

Cyhoeddwyd yr enillydd gan un o'r beirniaid, Huw Tregelles Williams a chyflwynwyd y tlws i'r arweinydd Sioned James gan Keith Jones, Pennaeth Rhaglenni Cymraeg BBC Cymru.

Beti George oedd arweinydd y noson.




Yn ogystal â'r tlws a'r anrhydedd o ennill y gystadleuaeth fawr hon mae Côrdydd yn derbyn tlws arbennig a gwobr o £2,000. Daeth Côr Caerdydd yn ail, Cantorion Rhos yn drydydd a Chôr Adlais yn bedwerydd gan dderbyn £1,000, £750 a £500 yr un.

Roedd y wledd gerddorol i'w chlywed yn fyw mewn rhaglen arbennig ar Radio Cymru.

Dechreuodd y gystadleuaeth hon gydag 14 o gorau cymysg o bob rhan o Gymru yn brwydro am le yn yr ail rownd yn gyntaf, ac yna'r rownd derfynol.

# Côrdydd yn y Caribî. 24-31 Mai 2003

Flwyddyn yn ôl, cafodd Côrdydd wahoddiad i gymryd rhan yng Ngwyl Geltaidd flynyddol Barbados. Derbyniwyd y gwahoddiad fwy neu lai ar unwaith, yna cawsom flwyddyn o gynnal gweithgareddau i ddenu diddordeb a chodi arian tuag at y daith.

Ar ôl blwyddyn o baratoi ac edrych ymlaen, daeth yr aros i ben wythnos y Sulgwyn 2003 a 38 ohonom ar dân i gyrraedd paradwys y Caribî.

I'n croesawu i'r ŵyl, cawsom fersiwn Barbados o'r 'Highland Games' gyda phawb yn mwynhau gêmau di-ri ar y traeth a pherfformiadau dewr iawn yn yr ornest tynnu rhaff!

Ar y nos Fawrth, roeddem yn cymryd rhan mewn cyngerdd yn Neuadd Collymore yn Bridgetown, ynghyd ag un o gorau lleol yr ardal. Dan arweiniad ein harweinyddes, Sioned James, buom yn diddanu cymuned yr 'ex-pats', gyda'r rhaglen gerddoriaeth amrywiol yn tynnu ambell ddeigryn i lygaid y Cymry alltud.

Cawsom hefyd wahoddiad i ganu mewn Cymanfa Ganu yn un o gapeli'r brifddinas, gyda thri chôr lleol arall. Gyda'r gynulleidfa frwdfrydig dan arweiniad Alun Guy, a'r gwres tanbaid, profodd hon yn noson i'w chofio. Profiad bythgofiadwy oedd cydganu emyn-donau Cymreig yng nghwmni llond capel o drigolion lleol Barbados.

Uchafbwynt y daith i lawer oedd dwy daith a gawsom ar gwch catamaran ar hyd arfordir yr ynys. Yn ystod y dydd, cawsom gyfle i roi tro ar 'snorkellio' a nofio ynghanol y pysgod a'r cwrel amryliw – profiad cofiadwy iawn! Ar y daith nos, roedd pawb mewn hwyliau a digonedd o ganu a dawnsio i'n diddanu ar fwrdd y llong. Daeth y cyfan i ben gyda'r côr yn morio canu'r anthem wrth ddocio 'nôl yn yr harbwr.

Roedd hi'n wythnos i'w chofio, a'r sylw rwan yn troi at ddewis pa wlad y byddwn ni'n ymweld â hi'r flwyddyn nesaf. Mae'r awydd i deithio wedi cydio!

**Hydref 2003 Y Dinesydd**

# SIAMPEN YN TROI'N CHWERW....

Côr CF1 yn fuddugol; Côr Caerdydd yn fuddugol; Côr Aelwyd Hamdden Caerdydd yn fuddugol. Mae'n siwr fod disgwyliadau trigolion Cymraeg y Brifddinas yn uchel gogyfer perfformiad Côrdydd ar ddydd Gwener yr Eisteddfod, yn enwedig ar ôl iddynt gipio'r wobr yng Nghystadleuaeth Radio Cymru Côr Cymru 2003 yn gynharach eleni.

Wel os oedd 'na ddisgwyl mawr - siom a gafodd ein cefnogwyr, heb sôn amdanon ni, aelodau'r côr. Siomedigaeth lem!!!

Mi oedd yna 7 côr yn brwydro am y fuddugoliaeth yn y gystadleuaeth Côr Cymysg rhwng 20-45 mewn nifer. A Chôrdydd oedd y cyntaf ar y llwyfan. Wedi misoedd o chwysu, bloeddio a diffyg cwsg, roeddwn fel arweinydd yn hollol sicr na allai'r 45 aelod bochgoch (o ganlyniad i wres tanbaid y Pafiliwn) fod wedi canu'n well. Dyma felly obeithio y byddai'r tri beirniad yn cytuno! Wedi dweud hyn, roedd yr hen 'elynion', Adlais, ABC a Chantorion y, Rhos, ac ambell i gôr newydd arall, wedi rhoi gwir her i'r corau i gyd a rhaid oedd derbyn fod y safon yn uchel iawn eleni.

Heidiodd y côr i wrando ar y feirniadaeth. A dyma Eifion Thomas yn dechrau traddodi, yn dra haelionus a chanmoliaethus am Gôrdydd; ac o glywed y chwe dyfarniad canlynol, roeddwn i'n gobeithio bod fy ngreddf yn gywir!

Ond och a gwae - fel pob drama dda, roedd 'na dro i'r gwt! Roedd yr Eisteddfod wedi penderfynu gwneud esiampl o'r gystadleuaeth hon, a chosbi'r pum c6r allan o'r saith, oedd wedi canu dros y deuddeng munud penodedig. Roedd wynepryd y tri beirniad yn adlewyrchu eu teimladau hwy ac, yn wir, deimladau'r corau. Anghredinedd bur!

O ganlyniad, mi aeth Côrdydd o fod yn gyntaf yn ôl beirniadaeth wreiddiol y beirniad, i fod yn 6ed allan o 7! Hyn wedi i'r Eisteddfod orfodi'r beirniad i newid y dyfarniad. Cwympo o 91 o farciau i 51 ! Mae'r peth yn chwerthinllyd erbyn hyn, ryw fis ar ôl y digwyddiad - ond doedd yr un ohonon ni'n chwerthin ar y pryd!

Fodd bynnag, wedi'r sylweddoliad fod y gallu i gyfri yn tra-arglwyddiaethu dros safon gerddorol, dim ond un peth oedd i wneud. Felly mas a'r Côr i ddathlu beth bynnag! Cafwyd noson arbennig ym Meifod, yn canu dros beint gydag aelodau Adlais a Chôr Eifionydd. Ond os nad oeddech chi yn digwydd bod ym Meifod y noson honno, tybed allwch chi ddychmygu beth oedd prif thema ein sgyrsiau.....??!!!!

Gyda llaw, yn dilyn digwyddiad tebyg yn Eisteddfod Tawe Nedd ac Afan eleni - mi fyddai'r Côr yn barod i dderbyn rhyw fath o iawndal gan unrhyw gwmni hedfan....maen nhw'n dweud fod y Maldives yn le braf!

Sioned Jones

**Preview ■ Welsh Baroque Orchestra, St Catherine's Church, Pontypridd ■**

2004

# The Enduring Passion of the Messiah

**Emily Lambert,** ■ newsdesk@wme.co.uk

SO what's new about Handel's *Messiah*?

After all, it's been around since 1741 and must be the most sung piece of classical music of all time.

But a bilingual *Messiah*?

A dramatised *Messiah*?

A *Messiah* with the instruments that Handel himself wrote for?

This month the Welsh Baroque Orchestra is determined to present two performances to remember.

First of all, it will be working with a first-rate team of soloists – Iona Jones, one of the best known sopranos in Wales, Buddug Verona James, an internationally known mezzo, Aled Hall, a tenor well known to Welsh National Opera audiences and Stephen Hamnett, top soloist with Llandaff Cathedral choir.

And they do more than stand and sing.

Under the direction of Verona James, the soloists will use operatic conventions to bring the music to life visually (and the second performance will be theatrically lit as well).

The orchestra also teams up with Cordydd, a new young choir based in Cardiff which has already won several prizes. While singing numbers alternately in English and Welsh, the orchestra will accompany with the transparent and lively sound that Handel himself had in mind when he created the *Messiah*.

What Handel achieved in *Messiah* was a wonderful blend of elegant, Italianate melody alternating with virtuosic vocalism for the soloists and, for the chorus, unmatched choral sonorities ranging from madrigalesque lightness to the composer's characteristic ceremonial style.

To achieve that effect they will use period instruments including early oboes and natural trumpets, featuring the outstanding Stephen Keavy on solo trumpet, all directed from the harpsichord by baroque expert Andrew Wilson-Dickson, head of Early Music at the Royal Welsh College of Music and Drama.

In advance of each performance there's a workshop for anyone who would like to sing or play *Messiah*, directed by Andrew Wilson-Dickson, who also gives a multimedia presentation on its creation and history.

■ **Catch the first performance at the impressive St Catherine's Church, Pontypridd on Sunday from 7.30pm and at Blackwood Miners Institute on April 3.**

2004

Sefydlwyd Côrdydd bedair blynedd yn ôl, gan griw o ieuenctid y Brifddinas. Ers sefydlu y côr, maent wedi cael cryn lwyddiant. Maent wedi cipio yr ail wobr ddwywaith yn olynol yn y gystadleuaeth Côr Cymysg dan 40 0 leisiau yn yr Eisteddfod Genedlaethol, perfformio'r clasur Teilwng Yw'r Oen gyda cherddorfa byw, ymddangos ar S4C yn yr opera arloesol `Crwtyn Bach Y Simne', perfformio mewn cyngerdd i ddathlu cwpan yr FA Cup gyda Lesley Garrett a Russell Watson, a chanu yn Neuadd Dewi i enwi ond ychydig.

Ond yn sicr, coron eu llwyddiant oedd ennill cystadleuaeth Gorau BBC Radio Cymru 2003 yn Neuadd Dewi Sant, Caerdydd, gan guro corau cymysg profiadol a llwyddiannus eraill.

Bu Côrdydd ar daith yn Barbados yn yr Wyl Geltaidd fis Mai 2003. Mae ganddynt amrywiol gyngherddau wedi'u trefnu ar gyfer 2004.

Côrdydd was formed four years ago by a crew of young people in Cardiff, and since their formation, they have proved successful. They have come second in the highly acclaimed choral competition in the National Eisteddfod, appeared on S4C in an innovative opera called `Crwtyn Bach Y Simne', appeared alongside Lesley Garrett and Russell Watson in an FA Cup concert and also performed in St David's Hall.

But the highlight so far has to be winning the BBC Radio Choir of the Year Competition in 2003, just before embarking on their first tour together to the Celtic Festival in Barbados.

Cordydd have a busy schedule for 2004, including:
April 17 - Rhosygilwen Mansion, Cilgerran with Buddug Verona James and Aled Hall May 14 - Brangwyn Hall, Swansea with Dunvant Male Voice Choir and Timothy Evans July 17 - Llandeilo Flower Festival August 6 - Competing in the National Eisteddfod, Newport October 2 - London Welsh Rugby Club October 24 - Ystrad Church
Cordydd are delighted to have had the opportunity to collaborate with the Welsh Baroque Orchestra. For more information you can visit their website: www.cordydd.com

Daw Sioned, James, arweinydd y côr, o Landysul yn wreiddiol ond erbyn hyn, mae wedi ymgartrefu yng Nghaerdydd ers 1994. Graddiodd o Brifysgol Cymru Caerdydd gyda gradd dosbarth cyntaf ym 1997. Roedd gan Sioned diddordeb mewn canu corawl ers ei hieuenctid cynnar a chafodd y cyfle i ganu gyda rhai o gorau mwyaf blaenllaw Cymru, gan gynnwys Cdr Ieuenctid Cenedlaethol Cymru, Ysgol Gerdd Ceredigion, Cantorion Teifi, Swansea Bach Choir a sawl grwp lleisiol.
Bu'n ddigon ffodus i ddod o dan adain dylanwadol Islwyn Evans yn gynnar iawn yn ei haddysg, a chafodd y cytle ganddo i arwain corau megis Ysgol Gerdd Ceredigion a chorau Ysgol Dyffryn Teifi. Dyma felly ddechrau ar ei gyrfa o arwain corau, ac mae hi'n brysur tu hwnt yn arwain Cymanfaoedd Canu ledled y wlad yn ogystal.
Cafodd y cyfle yn 1999 o gyd-weithio ar gryno ddisg Cwpan Rygbi'r Byd gan ysgrifennu'r rhagair am gerddoriaeth corawl Cymru a'r geiriau i gan Bryn Terfel a Shirley Bassey, `World in Union'. Mae hi'n gweithio fel asiant i actorion gyda Cinel Gabran Management ac hefyd yn darlithio rhan amser ar y cwrs Theatr, Cerdd a'r Cyfryngau yng Ngholeg y Drindod. Hi hefyd yw cyd-lynydd corawl cyfres arloesol newydd ar 54C, sef `Con Passionate'.
Sioned James hails from Llandysul originally but has lived in Cardiffsince graduating from Cardiff University with First Class Honours in 1997. Sioned has had an active interest in choral music from a very early age, having sung with numerous choirs National Youth Choir of Wales, Cantorion 'Teiti, Swansea Bach Choir, Ysgol Gerdd Ceredigion and many small vocal groups.
Sioned was fortunate to have been a pupil of the conductor Islwyn Evans, who gave her the opportunity from the age of 16, to conduct choirs such as Ysgol Gerdd Ceredigion, and this certainly spurred on her interest in conducting. She is busy throughout the year conducting different events.
In 1999, Sioned was given the opportunity to collaborate with the composer Charlie Skarbek on the Rugby World Cup CD, and as well as writing the foreword for the CD on the history of Welsh Choral Music, Sioned also composed the words to Bryn Terfel

**2007**

Cordydd have enjoyed immense success since their formation by a group of young friends in Cardiff at the brink of the Millennium.

Their aim was to form a "sociable" choir, but it soon became apparent that it was feasible to maintain a high level, both in socialising and in good musical standards!

In 2004, Cordydd performed Handel's "Messiah" at different venues with the Welsh Baroque Orchestra . They were also the winners in the BBC Radio Choir of the Year Competition in 2003 and participated in the Celtic Festival in Barbados. They have also visited Hong Kong and hope to continue touring throughout Wales and far beyond !

Cordydd have appeared on BBC 1 and S4C on many occasions, showing their ability to perform a variety of musical styles - from classical to modern, and from gospels to traditional. They have performed in the Millennium Stadium as the prematch entertainment many times, and they have a full calendar for the coming year, performing across Wales and beyond. The choir has also recorded two sessions for Radio 2's Sunday Half Hour.  Cordydd performed Verdi's Requiem with the BBC National Orchestra in June 2005 at St David' Hall in Cardiff and the Brangwyn Hall in Swansea, and also Brahms's Requiem, with the Swansea Bach Choir, in April 2006. They won the Mixed Choir (under 45 voices) competition in the National Eisteddfod of Wales in Newport 2004 and Eryri 2005, completing the hat-trick in 2006 at Swansea.

The choir have recently finished their first CD, which is the first and only recording in Welsh of John Rutter's Requiem, and they are fortunate to have had a singer who has already appeared at this year's Llandeilo Festival, the prolific young Welsh soprano Elin Manahan Thomas, as their soloist for the project.

Y Cymro 23 TACHWEDD 2007

# Requiem Rutter yn cynnig cysur ac ysbrydoliaeth

Roedd Sioned James yn wael iawn yn yr ysbyty wedi damwain car ddifrifol pan glywodd hi Requiem John Rutter y tro cyntaf erioed. Ei chyn-athro canu John Hugh Thomas gyflwynodd dâp o'r gerddoriaeth iddi pan ddaeth i ymweld â hi.

"Fe gafodd y Requiem effaith fawr arna i mewn cyfnod tywyll iawn," esbonia Sioned a oedd yn ferch ysgol ddeunaw oed ar y pryd. "Wrth wella o'r ddamwain roedd y gerddoriaeth yn gymorth mawr i fi roi pethau mewn i bersbectif."

"Offeren i'r meirw yw Requiem felly mae'n rhyfedd ei fod wedi llonni fy nydd. Yn wahanol i Requiems gan Mozart a Verdi, sydd yn drymach ac yn fwy ysbrydol, mae Requiem Rutter yn tawelu'ch meddwl chi."

Ar y pryd nid oedd Sioned, sy'n dod yn wreiddiol o Landysul, yn ymwybodol fod y cyfansoddwr wedi ysgrifennu'r darn er cof am ei fab a fu farw mewn damwain car. Roedd y sylweddoliad hwn yn taflu goleuni pellach ar y darn.

"Mae miloedd o bobl o gylch y byd wedi ysgrifennu at Rutter yn diolch iddo am y cymorth maen nhw wedi ei gael wrth wrando ar y darn. Sen i hyd yn oed yn mynd mor bell â dweud taw dyna beth ysbrydolodd fi i sefydlu'r côr."

Sioned yw sefydlydd ac arweinydd Côr-dydd yng Nghaerdydd ac mae'n hynod addas taw nhw sydd wedi perfformio'r Requiem yn y Gymraeg am y tro cyntaf a'i recordio ar eu CD cyntaf Caneuon John Rutter.

"Emyr Davies, bas gyda ni yn y côr, sydd wedi cyfieithu'r Requiem ac mae wedi llwyddo i godi'r gwreiddiol i uchel fannau," esbonia Sioned am y gwaith.

"Dywedodd John Rutter mewn cyfweliad unwaith taw o holl sopranos y byd, Elin Manahan Thomas fyddai orau i ganu'r Pie Jesu. Hi felly oedd y dewis amlwg ac ro'n i'n falch iawn pan gytunodd hi ganu gyda ni."

Mae Rutter ei hun yn hapus iawn fod Côr-dydd wedi mynd ati i gyfieithu, recordio a pherfformio ei Requiem.

"Mae'n wych fod côr mor safonol a llwyddiannus wedi dewis recordio'r darn. Mae llif a phrydferthwch sain yr iaith yn gweddu i'r gerddoriaeth i'r dim a bydd, gobeithio, yn cyffwrdd â chalonnau rhai sy'n mwynhau cerddoriaeth yng Nghymru a thu hwnt."

Perfformiwyd y Requiem yn ddiweddar yn Eglwys St Augustine, Penarth ac mi oedd y noson yn un arbennig o emosiynol i Sioned.

"Roedd y cyngerdd yn ffrwyth llafur misoedd a misoedd o waith ac roedd fy sylw i wedi bod ar sain y côr a sicrhau ein bod ni'n wynebu'r her o gyflwyno'r darn arbennig hwn. Dim ond pan gafo ni gymeradwyaeth hir ar ddiwedd y perfformiad nath e daro gatre pam mod i di neud e."

Bydd cyfle i glywed stori Sioned a'i chysylltiad â gwaith John Rutter yn llawn yn rhaglen Stiwdio nos Sul ac yn ei ddilyn bydd Beti George yn cyflwyno perfformiad Côr-dydd ac Elin Manahan Thomas o'r Requiem o Eglwys St Augustine.

Dydd Sul, Tachwedd 25,
BBC Radio Cymru
Elin Manahan Thomas,
5am (Rhaglen gerddoria-
eth wythnosol)
Stiwdio – Rutter, 5.30pm
Offeren i'r Meirw, 6pm

2007 - CD

## Côrdydd

Ffurfiwyd Côrdydd yn 2000, pan ddaeth criw o ffrindiau ynghyd gyda'r bwriad o fwynhau canu a chymdeithasu. Denwyd llawer o ddinasyddion ifanc i'r ymarferion, a thyfodd y côr i fod yn un prysur a phoblogaidd.

Bu'r côr yn ffodus o gael profiadau cerddorol cofiadwy yn y saith mlynedd ers ei sefydlu: ennill cystadleuaeth Côr y Flwyddyn BBC Radio Cymru yn 2003; canu'r Meseia gyda Cherddorfa Baróc Cymru yn 2004; ymweld â Barbados a Hong Kong; cael cyfle i gydweithio â chorau eraill i ganu offeren Verdi yn 2005 gyda Chôr a Cherddorfa Gymreig y BBC ac offeren Brahms gyda Chôr Bach Abertawe yn 2006, heb anghofio am lu o gyngherddau amrywiol y bu'r côr yn eu cynnal. Daeth llwyddiannau yn yr Eisteddfod Genedlaethol hefyd, ac yn Abertawe yn 2006 enillodd y côr y gystadleuaeth i gorau cymysg dan 45 o leisiau am y trydydd tro.

Mae'r CD hwn o waith John Rutter yn benllanw misoedd o waith yn 2007, a hyderwn y bydd yn gyfrwng i roi sain ifanc, delynegol y côr ar gof a chadw. Diolch i bawb a gyfrannodd i wneud y CD hwn yn bosibl, ac i ffrindiau a chefnogwyr Côrdydd ar hyd y blynyddoedd.

## Côrdydd

Côrdydd was formed in 2000 when a group of friends came together to enjoy singing and socializing. The rehearsals attracted many of the young citizens of Cardiff, and the choir grew in size and popularity.

Since its inception, the choir has been fortunate to gain some memorable musical experiences: winning the BBC Radio Cymru Choir of the Year award in 2003; performing The Messiah with the Baroque Orchestra of Wales in 2004; touring Barbados and Hong Kong; performing Verdi's Requiem as part of a massed choir with the BBC Choir and National Orchestra of Wales in 2005, and Brahms' Requiem with the Swansea Bach Choir in 2006, and numerous other concerts. Other successes include winning the mixed choir with under 45 voices competition for the third time at the National Eisteddfod at Swansea in 2006.

This CD of John Rutter's choral works is the culmination of months of preparation during 2007, and we trust it will be a fitting record of the choir's youthful exuberance and lyrical sound. Thanks to all who contributed to the recording of this CD, and to all of Côrdydd's friends and supporters since its inception.



# Blwyddyn arbennig i Gôrdydd!



Flwyddyn union yn ôl, rhyddhawyd cryno ddisg cyntaf Côrdydd, sef Offeren John Rutter i'r Meirw a Chaneuon Eraill, gyda'r Soprano ddisglair Elin Manahan Thomas yn serennu. Mae'r côr wedi mynd o nerth i nerth ers hyn - a hynny ar sawl lefel! Mae'r nifer o aelodau yn y côr ar ei uchaf erioed gydag aelodau ifanc newydd yn tyrru i'r ymarferion yn wythnosol. Am y tro cyntaf, mae 'na ddigonedd o denoriaid!

Braf iawn yw croesawu cymaint o gantorion newydd, ifanc a brwdfrydig i'n plith, gyda'r hen stejars sydd wedi ymroi i'r côr ers y cychwyn cynta nôl yn 2000, yn eu cofleidio'n gerddorol ac yn gymdeithasol!

Cafwyd cyngerdd bythgofiadwy ym Mhenarth i lawnsio'r CD, ac roedd hi'n anodd meddwl y byddai unrhywbeth fyth yn rhagori ar hwn…tan Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd wrth gwrs. Roedd y frwydr yn un fawr yng nghystadleuaeth y Corau Cymysg rhwng 20-45 o leisiau, ac roedd buddugoliaeth i Gôrdydd yn goron ar Eisteddfod leol ragorol.

Ychydig feddyliai ein harweinyddes, oedd yn sâl yn ei gwely ar y Sadwrn olaf, y byddai 'na ragor o ddathlu i ddod! Aeth y côr allan un ag oll, i ddathlu ennill Côr Yr Ŵyl - pawb ond am ein harweinyddes tost wrth gwrs!

Cafwyd cyngerdd hyfryd, a theimladwy tu hwnt ym mis Hydref ym mhentref Farmers - anrhydedd oedd cael perfformio mewn noson o'r fath, gyda siec anrhydeddus yn cael ei gyflwyno i Shan Cothi, tuag at ei helusen newydd-anedig, Amser Just in Time.

Ac ymlaen a ni at gyfnod cyffrous arall yn ein hanes gyda chyngherddau ar y gweill yn y Gorllewin, y Bontfaen ac wrth gwrs ein hymdaith blynyddol draw i'r Mochyn Du am noson o Garolau - ac mi gewn ni gwmni Côr Pensiynwyr y Mochyn Du eleni am y tro cyntaf!

Diolch i bawb am eu cefnogaeth, a phob croeso i aelodau newydd. Ewch i www.cordydd.com am fwy o wybodaeth.

2009

**Amdanom ni | About us**
Sefydlwyd Côrdydd nôl yn y flwyddyn 2000 gan griw o ffrindiau ac ers y cychwyn, Sioned James sydd wedi arwain y côr a Branwen Gwyn ydi'r cyfeilydd.

Dros y blynyddoedd, mae'r côr wedi mynd o nerth i nerth gan sicrhau llwyddiant mewn cystadlaethau a chyngherddau. Côrdydd sydd wedi ennill gwobr Côr yr Ŵyl yn yr Eisteddfod Genedlaethol y nifer mwya' o weithiau a hynny bedair gwaith – yng Nghaerdydd yn 2008, Wrecsam yn 2011, Bro Morgannwg yn 2012 ac yn Ninbych yn 2013. Maen nhw hefyd wedi ennill cystadleuaeth y corau cymysg i'r rheini â hyd at 45 o leisiau wyth gwaith.

Mae'r côr wedi cael y cyfle i weithio ar y cyd â nifer o arweinwyr a chyfansoddwyr byd enwog. Ddwywaith, mae aelodau'r côr wedi perfformio dan faton un o gyfansoddwyr mwyaf toreithiog ein cyfnod – Eric Whitacre. Mewn dwy gyngerdd arbennig yng Nghadeirlan Tŷddewi ac Eglwys Gadeiriol Llandaf, i ddathlu penblwydd Morten Lauridsen ar ei benblwydd yn 70 yn ogystal â'i ymweliad cyntaf â Chymru, bu'r côr yn perfformio cyfansoddiadau Lauridsen a Paul Mealor yng nghwmni'r ddau gawr corawl.

Dan sêl bendith John Rutter, recordiodd y côr gryno ddisg o'i Requiem, a hynny am y tro cyntaf erioed yn y Gymraeg, gyda llais disglair Elin Manahan Thomas yn gwmni i Côrdydd.

Dewiswyd y côr i ganu ar y mwyafrif o draciau ar gryno ddisg Nadolig Bryn Terfel (Deutsche Gramaphon) yn ogystal â pherfformio'i weithiau gydag e' ar raglen deledu.

Maent wedi teithio i Hong Kong a Barbados a nôl yn 2004, aethant ar daith gyda Cherddorfa Baroc Cymru, i berfformio'r Meseia. Yn 2003, enillodd Côrdydd gystadleuaeth Côr Cymru Radio Cymru a daethant i'r brig yn eu categori yng nghystadleuaeth Côr Cymru S4C yn 2009.

Yn 2005 bu'r criw yn ddigon ffodus i ganu Requiem Verdi gyda Cherddorfa'r BBC a Requiem Brahms ar y cyd gyda Chôr Bach Abertawe. Maent wedi recordio sesiynau radio i'r Sunday Half Hour ar Radio 2 ac wedi ymddangos ar deledu a radio droeon.

Cydnabyddir Côrdydd fel un o brif gorau cymysg yng Nghymru – yn ôl Paul Mealor "dyma, heb os gôr gorau Cymru". Nod y côr ydi parhau i ddatblygu ar eu safon lleisiol a darparu'r cyfleoedd mwyaf eang posib i'r aelodau, a'r profiad mwyaf arbennig i'r gynulleidfa.

—————

*Côrdydd was founded in the year 2000 by a group of friends, and since the beginning Sioned James has been the conductor with Branwen Gwyn the accompanist.*
*Over the years, the choir has grown from strength to strength by ensuring success in competitions and concerts. Côrdydd have won the Choir of the Festival award at the National Eisteddfod more than any other choir, four times in all – Cardiff in 2008, Wrexham in 2011, The Vale of Glamorgan in 2012 and Denbigh in 2013. They have also won the competition for mixed choirs up to 45 voices 8 times in all.*
*The choir have worked alongside many world renowned conductors and composers. The choir have twice performed under the baton of one of the most prolific composers of our time – Eric Whitacre. In two very special concerts at St Davids and Llandaff Cathedrals, as part of Morten Lauridsen's 70th birthday celebrations, and on his first visit to Wales, the choir performed both Lauridsen and Paul Mealor's compostitions in the company of the choral giants.*
*With John Rutter's blessing, the choir recorded a CD of his Requiem, and that for the first time in Welsh, with the wonderful voice of Elin Manahan Thomas keeping Côrdydd company.*
*The choir were chosen to perform on most of the tracks on Bryn Terfel's Christmas CD (Deutsche Gramaphon) as well as performing with him for a TV Christmas special.*
*They've travelled to Hong Kong and Barbados, and back in 2004 they toured with the Welsh Baroque Orchestra to perform the Messiah. In 2003 the choir won BBC Radio Cymru's Choir of Wales competition, and in 2009 came top of their category in S4C's Choir of Wales competition.*

*In 2005, the choir were fortunate enough to sing Verdi's Requiem with the BBC Orchestra, and Brahms' Requiem alongside the Swansea Bach Choir. They have recorded radio sessions for Sunday Half Hour on Radio 2 as well as appearing on television and radio many times.*
*Côrdydd are recognised as one of Wales' main mixed choirs – according to Paul Mealor "these are without a doubt the best choir in Wales". The choir's aim is to keep developing their vocal quality and providing its members with the widest possible range of opportunities, as well as providing audiences with special experiences.*

2009

Côrdydd
Mi fydd Côrdydd yn dathlu eu dengmlwyddiant yn 2010 ac ers eu ffurfio, maent wedi datblygu i fod yn un o gorau cymysg fwyaf llwyddiannus ac amryddawn Cymru. Ers eu sefydlu maent wedi dod i'r brig mewn nifer o gystadlaethau gan gynnwys ennill Cystadleuaeth Côr Cymysg dan 45 0 leisiau ar 5 achlysur yn y 6 mlynedd diwethaf.

Fe'u coronwyd yn Gôr yr Ŵyl yn Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd yn 2008 ac mae 2009 wedi bod yn flwyddyn yr un mor gyffrous iddynt. Eleni, ynghyd ag ennill yn yr Eisteddfod Genedlaethol, cipiwyd y drydedd wobr ganddynt yn Eisteddfod Ryngwladol Llangollen, ac mi enillodd Côrdydd eu categori yng Nghôr Cymru 2009 gan fynd ymlaen i gynrychioli y corau cymysg yn y rownd derfynol - bu i Sioned James, eu harweinyddes ennill y wobr am yr Arweinydd Gorau yn y gystadleuaeth gyfan.

Mae Côrdydd wedi perfformio yn rhyngwladol ar lwyfannau Barbados a Hong Kong, ac maent yn brysur drwy'r flwyddyn yn canu mewn cyngherddau lleol a chenedlaethol ac yn cyfrannu at elusennau yn fynych.

Mae Côrdydd wedi perfformio ar raglenni ar y BBC, radio a theledu fel Sunday Half Hour Radio 3, ac yn cael y cyfle bob blwyddyn i ganu ar Stadiwm y Mileniwm fel adloniant cyn y gemau rygbi. Rhyddhawyd CD cyntaf Côrdydd yn 2008, sef Offeren John Rutter i'r Meirw, gydag Elin Manahan Thomas - y tro cyntaf erioed i'r campwaith gael ei recordio yn gyfan gwbl yn y Gymraeg a hynny gyda sêl bendith y cyfansoddwr. Fel rhan o'u dathliadau dengmlwyddiant, mae Côrdydd yn edrych `mlaen i gydweithio'n agos gydag Eric Whitacre, un o gyfansoddwyr corawl mwyaf toreithiog a phoblogaidd yr Unfed Ganrif ar Hugain - ac mi fydd y cydweithio hwn yn goron ar ddengmlwyddiant ffyniannus yn hanes y côr ifanc hwn.

Côrdydd was formed nearly a decade ago in 2000 by a group of friends in Cardiff and has since developed into one of the most successful and talented mixed voice choirs in Wales. Since their formation, they have been successful in numerous competitions, including winning the National Eisteddfod Mixed Voice Choir under 45 voices on 5 occasions, including the Best Choir in last year's National Eisteddfod. This year, they won the Mixed Voice Choir category in S4C's Côr Cymru and Sioned James, the conductor went on to win Best Conductor 2009. They also competed for the very first time in the Llangollen International Eisteddfod and were delighted to bring home the third prize. Côrdydd have travelled to Hong Kong and Barbados, and frequently appear on television and radio programmes, such as Sunday Half Hour on Radio 3.
Côrdydd released their first CD in 2008, of John Rutter's Requiem with Elin Manahan Thomas - the very first recording in Welsh, to be given its blessing by the composer himself. They look forward to celebrating their 10th anniversary in 2010.

# CANU MEWN CÔR

Y Wawr. Gaeaf 2009

## BETH YW'R ATYNIAD?




**RHIANNON PUGH**
Ail soprano yng Nghôrdydd, Caerdydd

**Faint o ymrwymiad ydy e?**
Mae'r côr yn ymarfer bob nos Iau oni bai bod cyngerdd neu gystadleuaeth. Yna bydd ymarferion fore Sadwrn a nos Fawrth yn ogystal. Rhwng popeth mae'n dipyn o ymrwymiad, yn enwedig os ydyn ni'n cystadlu, fel y gwnaethon ni eleni yng Nghôr Cymru a'r Eisteddfod Genedlaethol, heblaw sôn am lansio cryno ddisg ddiwedd 2008.

**Beth fu'r uchafbwynt(iau)?**
Yr uchafbwynt i mi oedd ennill yn y Genedlaethol (2008 a 2009) a chyngerdd lansio'r gryno ddisg o Offeren John Rutter i'r Meirw a chaneuon eraill. O ie, a chwrdd â 'ngharaid wrth gwrs!

**Unrhyw isafbwynt?**
Dim ond methu â mynd ar daith dramor gyda'r Côr am fy mod i'n athrawes.

**Beth am y wisg?**
Ffrogiau duon a blodyn pinc tywyll i'r merched, felly mae'n gweddu i bawb, a siwt ddu a chrys gwyn i'r dynion.

**A beth sy'n denu fwyaf?**
Mae canu dan arweiniad Sioned James yn heriol ac wastad yn codi'r ysbryd. Ac mae'r cymdeithasu'n dda iawn hefyd ...!

2010

# Côrdydd

Y Pafiliwn Nos Sadwrn
Awst 7 20:00 awr

Eleni, mae Côrdydd yn dathlu'u pen blwydd yn ddeg oed, a thros y ddegawd ddiwethaf, mae'r côr wedi mynd o nerth i nerth. Dros y chwe blynedd diwethaf, mae Côrdydd wedi ennill Cystadleuaeth Côr Cymysg dan 45 o leisiau yr Eisteddfod Genedlaethol bum gwaith. Yn enillwyr Cystadleuaeth Corau Radio Cymru'n gynnar yn eu gyrfa, mae Cordydd hefyd wedi ennill Cystadleuaeth Côr yr Ŵyl, a daeth y côr yn drydydd yn Eisteddfod Ryngwladol Llangollen – ar ei hymgais gyntaf. Enillodd y côr gystadleuaeth Côr Cymysg Côr Cymru ar S4C yn 2009, ac enillodd ei harweinydd, Sioned James, y wobr am yr arweinydd gorau yn y gystadleuaeth.

Yn gyfrannwyr cyson ar raglenni radio a theledu yn y Gymraeg a'r Saesneg, mae gan Côrdydd berthynas dda gyda rhai o arweinyddion a chyfansoddwyr pennaf y byd, fel John Rutter, John Hugh Thomas a Stephen Cleobury, a phinacl dathliadau'r dengmlwyddiant eleni fydd cydweithio'n agos gydag Eric Whitacre, sy'n un o gyfansoddwyr mwyaf poblogaidd a thoreithiog yr oes bresennol. Mae Côrdydd yn falch iawn o gefnogi Eisteddfod Genedlaethol Blaenau Gwent a Blaenau'r Cymoedd.

This year, Côrdydd celebrates their tenth birthday, and over the past decade, the choir have gone from strength to strength. Over the past six years, Côrdydd have won the Mixed Choir Competition for less than 45 voices at the National Eisteddfod no less than five times. Having won the Radio Cymru Choir Competition early in their career, Côrdydd won the prestigious Festival Choir at the Cardiff and District National Eisteddfod in 2008, and the choir came third at the Llangollen International Eisteddfod in 2009 – on their first attempt. The choir won the Mixed Choir competition as part of S4C's Côr Cymru in 2009, and conductor, Sioned James was named as the best conductor in the competition.

The choir are regular contributors to radio and television programmes in both Welsh and English. Côrdydd has an excellent relationship with some of the world's leading conductors and composers, such as John Rutter, John Hugh Thomas and Stephen Cleobury. The pinnacle of the tenth anniversary celebrations sees them working closely with the popular composer, Eric Whitacre. Côrdydd are delighted to perform at this year's National Eisteddfod.



Western Mail
WalesOnline.co.uk Saturday, 6 November 2010

# A CULTURAL WEEKEND

## How I'll spend the next 48 hours


Sioned James

THIS weekend is the culmination of months of preparation for myself and the mixed choir, Côrdydd, that I conduct.

It's our 10th anniversary this year. We sang on Bryn Terfel's new Christmas album and at the closing concert of the Eisteddfod, and it's been a fabulously exciting year.

However, there is no doubt that the highlight of our celebrations began last night, as Eric Whitacre, the world famous conductor/composer, arrived in Cardiff – his first visit to Wales – to spend the weekend with Côrdydd.

We had a three-hour rehearsal of his wonderful compositions that Eric himself will be conducting in a one-off special at the BBC Hoddinott Hall in Cardiff Bay tonight.

It was early to bed last night as today is a big, big day. I'll have a little lie-in if my swirling brain allows me, and will pick Eric up from his hotel at 1pm. We'll arrive at the venue at 2pm, where he will rehearse with Cywair and Swansea Bach Choir who are our special guests tonight.

As for the rest of today, it will be rehearse, panic, rehearse, panic – and come 8pm, we'll have to pull everything out of the bag to please the most prolific composer of our modern times.

After the event, we will celebrate at Bar One with a party – Côrdydd are very good at parties.

Tomorrow will be a chance to reflect with a family meal with my mother, husband and in-laws.

■ **Sioned James is music director of Côrdydd. The concert takes place tonight at BBC Hoddinott Hall, Cardiff. The box office number is 029 2063 6464**

sgodyn mawr byd y corau

# Y Maestro a Chordydd



### Mae un o arweinwyr corau gorau'r byd yn dod i Gaerdydd i gynnal gweithdy yfory ...

Mae côr o Gaerdydd wedi llwyddo i ddenu un o arweinwyr gorau'r byd i'w hyfforddi, gan ddefnyddio arian a gawson nhw am ennill yn y Brifwyl.

Ar ôl dod i'r brig yn brif gôr Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd yn 2008, aeth aelodau Cordydd ati i feddwl am y ffordd orau o wario arian y wobr.

"Daeth amryw syniadau, ond roedd un ar ben fy rhestr trwy'r amser," meddai Sioned James, arweinydd Cordydd.

"Roeddwn yn gyfarwydd â gwaith Eric Whitacre ers clywed un o'i ddarnau enwoca', Sleep, rhyw bum neu chwe blynedd yn ôl. Cefais fy swyno'n llwyr gan y gwaith ac mae'r côr wedi bod yn canu rhai o'i gyfansoddiadau ers hynny. Felly, dyna ddechrau meddwl. Tybed a fydden ni'n gallu gweithio gyda Eric Whitacre?

"Fwy mewn gobaith na sicrwydd, fe ddywedais wrth Elfed Roberts o'r Eisteddfod Genedlaethol mai dyna fydden ni yn hoffi'i wneud."

Mae Eric Whitacre, o Los Angeles, wedi gwneud enw iddo'i hun drwy'r byd fel cyfansoddwr ac arweinydd corau. Yn ei wlad enedigol, mae'n dipyn o seleb hefyd ac wedi gwneud llawer i ddelwedd cerddoriaeth glasurol.

Fyddai Eric Whitacre ddim yn edrych yn chwithig mewn grŵp fel Il Divo ac mae wedi profi'n gymaint o lwyddiant ar You Tube ag mewn neuaddau cyngerdd.

Mae'r 44 o gyfansoddiadau y mae wedi eu cyhoeddi wedi gwerthu mwy na miliwn o gopïau drwy'r byd ac mae ei ddisg ddiweddara, **Light and Gold**, newydd gyrraedd rhif 1 yn siartiau clasurol Prydain. Felly, roedd yn dipyn o fenter i Sioned James ei wahodd i Gymru.

"Doeddwn i ddim yn gallu credu ei fod wedi cytuno i weithio gyda ni pan ddaeth yr ateb yn ôl ganddo! Roedd yn deimlad anhygoel!

"Nawr, bydd Cordydd yn cael gweithdy ecsgliwsif gydag Eric Whitacre am rhyw dair awr bnawn Gwener ac yna mae Cyngerdd ar y nos Sadwrn pan fyddwn ni'n canu rhyw ddwsin o'i gyfansoddiadau fe.

"Rydyn ni hefyd wedi gwahodd dau gôr arall - Cywair a'r Swansea Bach Choir - i ymuno â ni yn y gyngerdd. Byddan nhw hefyd yn cael rhyw awr o weithdy yr un gyda Eric ymlaen llaw."



### Cordydd yn swyno'r Ianc

Heddiw yw'r tro cynta i Eric Whitacre ddod i Gymru ac roedd wrth ei fodd yn derbyn y gwahoddiad.

"Roeddwn yn LA gyda'r teulu ac fe ddaeth yr e-bost yn gofyn a fyddwn am fynd i Gymru i weithio gyda chôr yn y brifddinas," meddai'r Americanwr.

"Roedd yn e-bost graslon iawn ac fe'm swynwyd gan y ffordd yr oedden nhw wedi geirio'r holl beth. Pan glywais CD o'r côr yn canu, roeddwn wedi fy swyno ymhellach.

"Mae ganddyn nhw bersonoliaeth dw i'n ymhyfrydu ynddo, roedd yna gynhesrwydd amlwg yn perthyn i'r dehongliadau ac roedd y cyfan yn dechnegol gywrain hefyd. Doedd gen i ddim amheuaeth o gwbl am dderbyn y gwahoddiad."

Dywed ei fod yn ymwybodol iawn o draddodiad corawl Cymru a'i fod yn ei hystyried yn fraint bellach cael dod i Gymru oherwydd hynny.

"Mae'r byd i gyd yn gwybod am draddodiad cerddorol Cymru ac yn enwedig y traddodiad canu corawl. Dyma galon y fath ganu drwy'r byd.

"Falle bod y Cymry'n cymryd hynny rywfaint yn ganiataol am ei fod yn draddodiad mor hir ac amlwg, ond mae gweddill y byd yn gwbod hynny'n iawn.

"Un peth oedd wedi creu cryn argraff arna i wrth wrando ar y CD hefyd, oedd y ffaith bod y caneuon yn y Gymraeg. Roedd hynny'n anhygoel i'w glywed a dw i'n edrych ymlaen at glywed yr iaith yn cael ei chanu ac yn cael ei siarad hefyd.

"Mae'n amhosib weithiau gwybod pryd mae'r Cymry'n gorffen siarad ac yn dechrau canu gan fod yna felodi i'r siarad hefyd!"

Mae Cordydd wedi bod yn paratoi ar gyfer y gweithdai yfory a'r gyngerdd drennydd ers peth amser. Ac er eu bod yn gyfarwydd iawn â gwaith Eric Whitacre, maen nhw hefyd yn ymwybodol iawn bod canu yn ei bresenoldeb yn fater hollol wahanol.

"Dw i ddim yn siŵr sut y byddwn ni'n ymateb a dweud y gwir," meddai Sioned James. "Mae wedi bod yn agoriad llygaid i fi ei weld yn arwain mewn cyngerdd. Bydd gweithio gyda fe yn rhywbeth arall eto.

"Rydyn ni fel côr wedi dehongli ei waith mewn un ffordd benodol hyd yma, ond bydd canu'r dehongliad yna yn ei bresenoldeb yn bwyse mawr arnon ni gyd, faint bynnag o fraint yw e hefyd."

■ Alun Gibbard

Chwefror 2014

**Côrdydd**

Sefydlwyd Côrdydd ym mhrifddinas Cymru, Caerdydd, nôl yn y flwyddyn 2000 gan griw o ffrindiau a oedd yn mwynhau cerddoriaeth ac eisiau cymdeithasu trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg. Dros y blynyddoedd, mae'r côr wedi mynd o nerth i nerth gan sicrhau llwyddiant mewn cystadlaethau a chyngherddau gyda nifer o arweinwyr a chyfansoddwyr byd enwog.

Y llynedd croesawodd Côrdydd y cyfansoddwr Americanaidd toreithiog Morten Lauridsen i Gymru fel rhan o ddathliadau ei ben-blwydd yn 70 oed. Roedd hi'n fraint i'r côr gydweithio ag ef a Paul Mealor mewn dwy gyngerdd yn Eglwys Gadeiriol Tŷ Ddewi ac Eglwys Gadeiriol Llandaf – lleoliadau delfrydol ar gyfer cerddoriaeth ysbrydol a hudolus y Lux Aeterna a'r Nocturnes.

Paul Mealor oedd yn gyfrifol am yr uniad arbennig hwn gyda Lauridsen ar ôl i'r côr gydweithio â Mealor yn 2011 yng Ngŵyl Gerddorol a Chelfyddydol Abertawe. Creuodd y côr gymaint o argraff arno, fe gysylltodd â'i gyfaill Lauridsen i'w berswadio i ddod i Gymru i weithio gyda Côrdydd. Braf felly yw ad-dalu'r ffafr a chael yr anrhydedd o ddod â Mealor i Efrog Newydd a pherfformio ei waith.

Ddwywaith, mae'r côr wedi canu o dan faton y cyfansoddwr corawl Americanaidd Eric Whitacre. Yn 2010 daeth Whitacre i Gymru am y tro cyntaf i berfformio yn Neuadd Hoddinott yng Nghanolfan Mileniwm Cymru gyda Côrdydd – a dychwelodd flwyddyn yn ddiweddarach i arwain y côr yn Neuadd Dewi Sant, Caerdydd.

Mae'r côr wedi recordio dwy gryno ddisg. Dan sêl bendith John Rutter, recordiodd y côr gryno ddisg o'i Requiem yn 2007, a hynny am y tro cyntaf erioed yn y Gymraeg, gyda llais disglair Elin Manahan Thomas yn gwmni i Côrdydd. Yn 2010, dewiswyd y côr i ganu ar y mwyafrif o draciau ar gryno ddisg Nadolig Bryn Terfel (Deutsche Gramaphon) yn ogystal â pherfformio'i weithiau gydag e ar raglen deledu Nadolig S4C.

Côrdydd sydd wedi ennill gwobr Côr yr Ŵyl yn yr Eisteddfod Genedlaethol y nifer mwya' o weithiau a hynny bedair gwaith – yng Nghaerdydd yn 2008, Wrecsam yn 2011, Bro Morgannwg yn 2012 ac yn Ninbych y llynedd. Mae'r côr hefyd wedi ennill cystadleuaeth y corau cymysg i'r rheini â hyd at 45 o leisiau wyth gwaith. Yn 2003, enillodd Côrdydd gystadleuaeth Côr Cymru Radio Cymru a daeth y côr i'r brig yng nghategori y corau cymysg yng nghystadleuaeth Côr Cymru S4C yn 2009.

Mae'r côr wedi teithio i Hong Kong a Barbados a nôl yn 2004, aeth y côr ar daith gyda Cherddorfa Baroc Cymru, i berfformio'r Meseia. Yn 2005 canodd Côrdydd Requiem Verdi gyda Cherddorfa'r BBC a Requiem Brahms ar y cyd gyda Chôr Bach Abertawe. Mae'r côr wedi recordio sesiynau radio i'r Sunday Half Hour ar Radio 2 ac wedi ymddangos ar deledu a radio droeon.

Cydnabyddir Côrdydd fel un o brif gorau cymysg Cymru – yn ôl Paul Mealor "dyma, heb os gôr gorau Cymru". Nod y côr ydy parhau i ddatblygu ar y safon lleisiol a darparu'r cyfleoedd mwyaf eang posib i'r aelodau, a'r profiad mwyaf arbennig i'r gynulleidfa.

***Côrdydd***

*Côrdydd was founded in the year 2000 in Wales' capital city, Cardiff (in Welsh – Caerdydd), by a group of friends who enjoyed music and wanted to socialise through the medium of the Welsh language. Over the years, the choir has grown from strength to strength by ensuring success in competitions and concerts working alongside many world renowned conductors and composers.*

*Last year, Côrdydd welcomed the American composer Morten Lauridsen to Wales as part of his 70th birthday celebrations. It was a prvilege for the choir to work with him, and Paul Mealor, in two concerts at St. David's Cathedral and Llandaff Cathedral – the perfect locations for his spiritual and magical Lux Aeterna and Nocturnes.*

*This special union with Lauridsen came about thanks to the Welsh composer, Paul Mealor, who worked with Côrdydd in 2011 at the Swansea Festival of Music and the Arts. The choir made such an impression he contacted his friend Lauridsen to persuade him to come to Wales to work with Côrdydd. It is therefore wonderful for the choir to be able to repay the favour and have the honour of bringing Mealor to New York and performing his work.*

*The choir has twice performed under the baton of the American choral composer Eric Whitacre. in 2010 Whitacre came to Wales for the first time to perform at Hoddinott Hall in the Wales Millenium Centre with Côrdydd – and he returned a year later to conduct the choir at St David's Hall, Cardiff. A Western Mail critic wrote:*


***"It feels like Whitacre's contemporary a capella pieces were actually written for these singers. Their note-perfect delivery, particularly during his more gentle works like Seal Lullaby, made the hairs on the back of your neck stand on end."***

*The choir has recorded two CDs. With John Rutter's blessing, the choir recorded a CD of his Requiem in 2007, and that for the first time in Welsh, with the wonderful voice of Elin Manahan Thomas keeping Côrdydd company. In 2010, the choir was chosen to perform on Bryn Terfel's Christmas CD (Deutsche Gramaphon) as well as performing with him for a TV Christmas special on S4C.*
*Côrdydd has won the Choir of the Festival award at the National Eisteddfod more than any other choir, four times in all – Cardiff in 2008, Wrexham in 2011, The Vale of Glamorgan in 2012 and Denbigh in 2013. The choir has also won the competition for mixed choirs up to 45 voices eight times. In 2003 Côrdydd won BBC Radio Cymru's Choir of Wales competition, and in 2009 came top of the mixed choir category in S4C's Choir of Wales competition.*
*The choir has travelled to Hong Kong and Barbados, and back in 2004 Côrdydd toured with the Welsh Baroque Orchestra to perform the Messiah. In 2005, the choir was fortunate enough to sing Verdi's Requiem with the BBC Orchestra, and Brahms' Requiem alongside the Swansea Bach Choir. The choir has recorded radio sessions for Sunday Half Hour on Radio 2 as well as appearing on television and radio many times.*
*Côrdydd is recognised as one of Wales' main mixed choirs – according to Paul Mealor "these are without a doubt the best choir in Wales". The choir's aim is to keep developing its vocal quality and providing its members with the widest possible range of opportunities, as well as providing audiences with special experiences.*

**Sioned James – Cyfarwyddwr Cerdd**
Graddiodd Sioned James, Cyfarwyddwr Cerdd Côrdydd, o Brifysgol Cymru Caerdydd gyda gradd dosbarth cyntaf ym 1997. Sioned ydy sylfaenydd ac arweinydd gwreiddiol Côrdydd ac mae hi'n gyfrifol am ddatblygu rhaglen gerddorol amrywiol a heriol i'r côr. Mae hi hefyd wedi darparu'r weledigaeth a'r uchelgais i'r côr i gydweithio gyda cherddorion, cyfansoddwyr ac arweinwyr byd enwog. Enillodd Sioned y wobr am yr arweinydd gorau yn y gystadleuaeth Cor Cymru ar S4C yn 2009.
Roedd gan Sioned ddiddordeb mewn canu corawl ers ei hieuenctid cynnar a chafodd y cyfle i ganu gyda rhai o gorau mwyaf blaenllaw Cymru, gan gynnwys Côr Ieuenctid Cenedlaethol Cymru a'r Swansea Bach Choir. Bu'n ddigon ffodus i ddod o dan adain ddylanwadol John Hugh Thomas ac Islwyn Evans yn gynnar iawn, a chafodd y cyfle ganddo i arwain corau megis Ysgol Gerdd Ceredigion pan yn 16 oed. Erbyn hyn mae Sioned yn mwynhau gyrfa amrywiol ym myd cerddoriaeth ac fel asiant. Gweithiodd gyda Charlie Skarbek ar gryno ddisg Cwpan Rygbi'r Byd ac ymddangosodd ar raglen rhwydwaith BBC 1 'Can't Sing Singers' lle bu'n hyfforddi deuddeg o bobl i ganu. Mae hi wedi gweithio fel cydlynydd cerddoriaeth ar nifer o raglenni poblogaidd, gan gynnwys tair cyfres o 'Con Passionate' a dwy gyfres o 'Coalhouse'. Yn fwy diweddar gwelwyd hi'n gweithio gyda Decca Records ar 'Llais i Gymru' ar S4C.

***Sioned James – Musical Director***
*Côrdydd's musical director is Sioned James who graduated from Cardiff University with First Class Honours in 1997. Sioned is the founding conductor of Côrdydd and is responsible for developing the choir's diverse repertoire. She has also provided the choir with the vision and ambition to work with musicians, composers and conductors from the world over. She won the award for the best conductor in 2009 on S4C's Côr Cymru.*
*Sioned has had an active interest in choral music from an early age, having sung with numerous choirs including the National Youth Choir of Wales and the Swansea Bach Choir. Sioned was fortunate to have been a pupil of conductors John Hugh Thomas and Islwyn Evans and it was he who gave her the opportunity to conduct choirs such as Ysgol Gerdd Ceredigion from the age of 16. Now Sioned enjoys a varied career in the world of music and as an agent. She collaborated with Charlie Skarbek on the Rugby World Cup CD and she was featured on the BBC network programme 'Can't Sing Singers' in which she coached twelve non-singers on a musical journey. She has worked as the choral co-ordinator for three series of an S4C drama, based on a fictional choir, called 'Con Passionate' and two series of BBC's 'Coalhouse'. More recently she worked with Decca Records on S4C's 'Llais i Gymru' (Voice for Wales).*

Western Mail WalesOnline.co.uk Saturday, 23 February 2013



# Choir teams up with top composers

A WELSH choir is preparing for concerts with two of the choral world's most prolific composers.

Côrdydd is teaming up with Royal Wedding composer Paul Mealor and American composer Morten Lauridsen, pictured left, for performances in St Davids and Cardiff next month.

Welshman Mealor shot to fame after writing Ubi Caritas for the wedding of the Duke and Duchess of Cambridge in 2011. Lauridsen, who lives in Los Angeles, will be visiting Wales for the first time for the concerts, part of his 70th birthday celebrations.

The choir will perform Mealor's Ubi Caritas and his piece Now Sleeps The Crimson Petal. They will sing Lux Aeterna – including Sure On This Shining Night – Nocturnes and Dirait-On by Lauridsen.

The Cardiff mixed choir's conductor Sioned James said: "Côrdydd's had a very successful few years, winning Best Choir at the National Eisteddfod twice running and working twice with Eric Whitacre in Cardiff. Working with Paul Mealor and Morten Lauridsen is another a tremendous coup for us."

■ **The concerts are at St Davids Cathedral on March 4, at 7.30pm, and at Llandaff Cathedral, Cardiff, on March 5, at 8pm. For tickets, email cordydd1@gmail.com or call 07793 742459**

Box Office

arts & entertainment

Wm3

▶TV LISTINGS P12&13
▶PUZZLES P14&15

Western Mail

Friday, March 21, 2014



Cardiff-based choir Cordydd, which is making its New York debut in Carnegie Hall PICTURE: Tom Guy

# American dream

## New York's month-long St David's Day celebrations will be brought to a close with a gala featuring Cardiff-based amateur choir Cordydd. Its conductor tells **Karen Price** how working with some of the world's biggest contemporary composers has helped raise their profile



Sioned James, musical director of Cardiff-based choir Cordydd

FOR musical director Sioned James, taking her choir Cordydd to New York was among her many ambitions.

Now the singers are about to perform at Carnegie Hall, which has previously hosted big names like The Beatles, Frank Sinatra and Luciano Pavarotti – but she is unable to join them. For the conductor will be back home in Cardiff recovering from an operation when the concert featuring the music of royal wedding composer, Paul Mealor, takes place.

"The choir's still in a bit of a shock about it all," she says of the invitation for them to perform at the March 29 event, which comes at the tail end of the Big Apple's month-long St David's Day celebrations.

"I don't think they fully realise the impact it will have on them. Once they see the iconic building I think it will hit them. The list of people who've performed there is just ridiculous so it's amazing for a little choir like ours to be going there. But they have worked hard for this and made an impression despite being an amateur choir.

"Unfortunately for me it's very bad timing as I will be unable to go as I'll be recovering from an operation but I'll be thinking of them and feeling very proud."

While two choir members, Huw Foulkes and Steffan Jones, will be taking over the baton, Welsh composer Mealor will conduct the performances of his main works, including Ubi Caritas – performed during the wedding of the Duke and Duchess of Cambridge – Wherever You Are and the US premiere of A Welsh Prayer, a new work for choir and harp. Welsh harpist Gwenllian Llyr will also be on board.

Mealor is honorary president of Cordydd and James believes that it is their connections with him and three other contemporary composers – Eric Whitacre, John Rutter and Morten Lauridsen – which helped secure their New York booking.

"Every choral director has a mission for his or her choir and, for me, it's to make the best possible sound we can make which attracts the big names," she says. "I want to work with as many living legends as we can and luckily we have forged relationships with Mealor, Whitacre, Lauridsen and Rutter.

"Opportunities then arise once your name is connected with these people and we have followers now which we wouldn't have had if it were not for them."

In 2000, long before Gareth Malone was reviving the choral tradition by launching the Military Wives Choir, which scored a number one with Mealor's hit Wherever You Are, James founded Cordydd.

"At the time, it was a different era for choral singing and in Cardiff there was a gap in the market for a young energetic choir. So a group of us put up posters about our first meeting in the Cameo and 150 people turned up, which was telling."

The non-audition mixed choir performs a wealth of concerts each year and takes part in competitions, winning Best Choir in the National Eisteddfod three consecutive years and eight times in total.

Its links with contemporary composers include a concert of Whitacre's music at St David's Hall in Cardiff, which was conducted by the American composer who's renowned for his virtual choir projects. The singers also did a series of performances celebrating both Mealor and Lauridsen.

Cordydd has toured internationally on two occasions in the past – to Barbados and Hong Kong. Now as the singers look ahead to their New York gig, they will be performing a warm-up concert in Cardiff this weekend when James will be in the audience.

"It will be a first for me," she admits. "I'll be among the audience making notes. It will be quite an enjoyable experience but I probably won't be as lenient as the rest of the audience."

James admits that the day of the New York concert will be a bitter-sweet experience for her as she recuperates at home. The choir will also be performing at a Cymanfa Ganu, a Welsh hymn singing event organised by the Welsh Congregation of New York, the day after its Carnegie Hall debut.

So what does she hope the singers gain from the experience?

"I hope they come away remembering that they haven't just stepped on stage at Carnegie Hall but have performed there just like some of the biggest names you can imagine. And if we have the opportunity to do something similar in the future we will grasp it with both hands."

■ **Cordydd will be performing a New York warm-up concert at Tabernacle Church, The Hayes, Cardiff, tomorrow at 7.30pm. For full details, visit www.cordydd.com**

*2014*

HUW ALUN FOULKES

Mae Huw wedi bod yn arwain ac yn canu mewn corau ers sawl blwyddyn. Fel cyn-ddisgybl o Ysgol Glanaethwy, cafodd y cyfle i gystadlu yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, ac yn 2009 bu'n rhan o Gôr Ysgol Gerdd Ceredigion a fu'n cystadlu yng nghystadleuaeth Côr y Byd yn Eisteddfod Ryngwladol Llangollen. Mae hefyd wedi ennill fel unawdydd mewn Eisteddfodau cenedlaethol. Yn ystod ei flwyddyn gyntaf yn astudio ym Mhrifysgol Caerdydd, gofynnwyd iddo arwain Côr Aelwyd y Waun Ddyfal, a bu'n gwneud hynny am saith mlynedd. Yn ystod y cyfnod hwnnw, daethant i'r brig mewn sawl cystadleuaeth yn Eisteddfodau'r Urdd a'r Genedlaethol yn ogystal â'r Ŵyl Cerdd Dant. Uchafbwynt y cystadlu iddyn nhw oedd cael eu henwi fel côr ieuenctid gorau Cymru yng nghystadleuaeth Côr Cymru y llynedd. Yn Eisteddfod Genedlaethol 2013, bu Huw yn arwain tri chôr – Aelwyd y Waun Ddyfal, Côrdydd a Chôr y Mochyn Du. Enillodd radd meistr yn y Gymraeg a diploma ôl-radd mewn Newyddiaduraeth Darlledu ym Mhrifysgol Caerdydd cyn dechrau ar ei yrfa fel newyddiadurwr darlledu ar raglenni BBC Cymru.

*Huw has been involved with choral singing and conducting for several years. As a former member of Ysgol Glanaethwy, he competed at local, national and international level, and has also won as a soloist at a national level. In 2009, he was a member of Côr Ysgol Gerdd Ceredigion and reached the Choir of the World competition at the Llangollen International Eisteddfod. Huw was offered an opportunity to be a musical director during his first year at Cardiff University and for seven years, he conducted Côr Aelwyd y Waun Ddyfal. He led them to several first prizes at the Urdd Eisteddfod, the National Eisteddfod and the Cerdd Dant Festival. Last year, they were named the best youth choir in Wales by winning their category in the Choir of Wales competition. At last year's National Eisteddfod, Huw conducted three choirs – Côr Aelwyd y Waun Ddyfal, Côrdydd and Côr y Mochyn Du. He gained a masters degree in Welsh and a postgraduate diploma in Broadcast Journalism at Cardiff University before starting his career as a broadcast journalist for BBC Wales.*

STEFFAN JONES

Yn wreiddiol o Gaerdydd, mae Steffan yn unawdydd profiadol yn ogystal â chanwr corawl ac arweinydd. Roedd yn Sgolor Corawl yng Nghôr Capel Coleg Worcester, Prifysgol Rhydychen, cyn symud i Lundain i astudio'r llais yn y Coleg Cerdd Brenhinol. Mae ei berfformiadau unigol diweddar yn cynnwys y Barnwr Turpin yn Sweeney Todd (Opera Ieuenctid Cenedlaethol Cymru); Dewi yn The Journey (Opera Cenedlaethol Cymru MAX); Meseia Handel; Requiem Fauré yn St Martin-in-the-Fields (Vivamus) a Mass Bernstein yn Proms y BBC yn 2012. Yn 2011, enillodd yr Unawd dan 25 yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ac o ganlyniad fe fu'n cystadlu yn Ysgoloriaeth Bryn Terfel ar S4C. Fe enillodd yr adran 'Canwr Clasurol' yn rhaglen BBC Radio Cymru, Cyfle Cothi, ac yn sgil hynny, gwahoddwyd Steffan i berfformio gyda Tri Thenor Cymru yng Nghanolfan Mileniwm Cymru. Yn ystod ei gyfnod yn Llundain, fe sefydlodd Steffan Aelwyd yr Urdd yno, ynghyd ag eraill. Ef oedd arweinydd cyntaf côr yr Aelwyd ac fe enillodd y côr merched yn Eisteddfod yr Urdd yn 2012.

*Originally from Cardiff, Steffan is an experienced soloist and chorister, as well as a conductor. He was a Choral Scholar in the Choir of Worcester College Chapel, Oxford, before moving to London to study voice at the Royal College of Music. Recent solo performances include Judge Turpin in Sweeney Todd (Welsh National Youth Opera); Dewi in The Journey (Welsh National Opera MAX); Handel's Messiah; Fauré's Requiem at St Martin-in-the-Fields (Vivamus) and Bernstein's Mass at the 2012 BBC Proms. In 2011, he won the Under 25 Solo at the National Urdd Eisteddfod and as a result competed in the Bryn Terfel Scholarship on S4C. He also won the 'Classical Male Singer' section in BBC Radio Cymru's Cyfle Cothi. As a result, he was invited to perform with the Three Welsh Tenors at the Wales Millennium Centre. During his time in London, he co-founded a Welsh-speaking society for young people, Aelwyd yr Urdd. He was the Aelwyd choir's first conductor, and the girls' choir won at the Urdd Eisteddfod in 2012.*

## BRANWEN GWYN

Yn un o sylfaenwyr Côrdydd ac yn wreiddiol o Gaerdydd, mae Branwen wedi bod yn canu a chyfeilio i'r côr ers y dechrau. Mae'n canu'r trwmped hefyd, ond y piano yw ei phrif offeryn. Tra oedd yn ei harddegau, enillodd ysgoloriaethau iau i'r Academi Gerdd Frenhinol yn Llundain a Choleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru yng Nghaerdydd. Dechreuodd Branwen gyfeilio yn yr ysgol ac wedyn yn y brifysgol ym Mangor. Ers graddio, mae hi wedi cyfeilio i nifer o unawdwyr a chorau yn ardal Caerdydd.

*As one of the founder members of Côrdydd, Branwen has accompanied and sung with the choir since its inception. She also plays the trumpet, but the piano is Branwen's main instrument. In her teens, she won youth scholarships to the Royal Academy of Music in London and the Royal Welsh College of Music and Drama in Cardiff. Branwen started accompanying at school and continued at Bangor University. Since graduating, she has accompanied a many soloists and choirs around Cardiff.*

## IEUAN JONES

Yn frodor o Ynys Môn, fe ddaeth Ieuan i Gaerdydd i astudio cerddoriaeth, gan dderbyn gradd anrhydedd yn Mhrifysgol Caerdydd. Yn ystod ei astudiaethau, fe dderbyniodd ysgoloriaeth fel organydd gan Eglwys Dewi Sant yn y brifddinas, ac mae bellach yn Gyfarwyddwr Cerdd a Chôrfeistr yno. Mae wedi cael llwyddiannau yn Eisteddfod yr Urdd a'r Eisteddfod Genedlaethol, ac mae'n gyfeilydd prysur ar y piano a'r organ i unawdwyr ac hefyd i Gôr Aelwyd y Waun Ddyfal, a Chôr y Mochyn Du. Yn ogystal â bod yn un o gyfeilyddion Côrdydd, mae Ieuan hefyd yn canu gyda thenoriaid y côr ers tair blynedd. Mae ei ddiddordebau cerddorol eraill yn cynnwys chwarae'r ukulele, a diddanu cynulleidfaoedd gyda'i dalent fel iodlwr.

*Originally from Anglesey, Ieuan moved to Cardiff to study music at the University of Cardiff where he received an honours degree. During his studies, he became an organ scholar at Dewi Sant Church and is now Musical Director and Choirmaster there. He's had many successes at The Urdd Eisteddfod and the National Eisteddfod over the years, and is now a busy accompanist for soloists, Côr Aelwyd y Waun Ddyfal and Côr y Mochyn Du. As well as being one of Côrdydd's accompanists, Ieuan has also been a member of the tenor section for three years. His other musical interests include playing the ukulele, and entertaining audiences with his talents as a yodeller.*

## CÔRDYDD



Côrdydd was founded in 2000 in Wales' capital city, Cardiff (in Welsh—Caerdydd), by a group of friends who enjoyed music and wanted to socialize through the medium of the Welsh language. Over the years, the choir has grown from strength to strength by ensuring success in competitions and concerts working alongside many world-renowned conductors and composers.

Last year, Côrdydd welcomed the American composer Morten Lauridsen to Wales as part of his 70th birthday celebrations. It was a privilege for the choir to work with him and Paul Mealor, in two concerts at St. David's Cathedral and Llandaff Cathedral—the perfect locations for his spiritual and magical *Lux Aeterna* and *Nocturnes*. This special union with Lauridsen came about thanks to the Welsh composer, Paul Mealor, who worked with Côrdydd in 2011 at the Swansea Festival of Music and the Arts. The choir made such an impression, that he contacted his friend Lauridsen to persuade him to come to Wales to work with Côrdydd. It is therefore wonderful for the choir to be able to repay the favor and have the honor of working with Paul Mealor in New York and performing his work.

The choir has twice performed under the baton of the American choral composer Eric Whitacre. In 2010 Whitacre came to Wales for the first time to perform at Hoddinott Hall in the Wales Millenium Centre with Côrdydd, and he returned a year later to conduct the choir at St. David's Hall, in Cardiff. A *Western Mail* critic wrote, "It feels like Whitacre's contemporary a capella pieces were actually written for these singers. Their note-perfect delivery, particularly during his more gentle works like *Seal Lullaby*, made the hairs on the back of your neck stand on end."

The choir has recorded two CDs. With John Rutter's blessing, the choir made a recording of his Requiem in 2007, for the first time in Welsh, with the wonderful voice of Elin Manahan Thomas. In 2010 the choir was chosen to perform on Bryn Terfel's Christmas CD and also performed with him for a television Christmas special on S4C (Welsh television channel).


Côrdydd has won the Choir of the Festival award at the National Eisteddfod more than any other choir, four times in all—in Cardiff in 2008, Wrexham in 2011, The Vale of Glamorgan in 2012, and Denbigh in 2013. The choir has also won the competition for mixed choirs of up to 45 voices eight times. In 2003 Côrdydd won BBC Radio Cymru's Choir of Wales competition, and in 2009 came top of the mixed choir category in S4C's Choir of Wales competition.

The choir has travelled to Hong Kong and Barbados, and in 2004 Côrdydd toured with the Welsh Baroque Orchestra to perform Handel's *Messiah*. In 2005 the choir was fortunate enough to sing Verdi's *Requiem* with the BBC Orchestra, and Brahms' *Requiem* alongside the Swansea Bach Choir. The choir has recorded radio sessions for Sunday Half Hour on Radio 2 as has appeared on television and radio many times.

Côrdydd is recognized as one of Wales' most eminent mixed choirs—according to Paul Mealor, "This without a doubt is the best choir in Wales." The choir's aim is to keep developing its vocal quality and providing its members with the widest possible range of opportunities, as well as giving audiences memorable experiences.

**The Very Impressive Cordydd at Carnegie Hall: A Match Made in Heaven for the also Impressive Weather**

Posted by Leslie Herman Jones on April 2, 2014 at 10:30




*Prelude to my use of cliché: Please don't chop my head off - clichés have gained their status because they are true. Also true that writers are warded off using them directly, but indirectly, they serve as useful points of reference: so, here it goes:*

Everyone knows that it rains a lot in Wales. And on Saturday 29 March 2014, New Yorkers were treated to a truly authentic Welsh experience with Cordydd's performance at Carnegie Hall. The Cardiff-based mixed choir, conducted by Paul Mealor, with Huw Alun Foulkes and Steffan Jones also conducting, Ieuan Jones (piano) and Gwenliian Llyr (harp), produced sounds that were so clean and pure, it was no surprise that the heavens opened to produce the rainiest night of the entire month!

I was still recovering from a severe virus that knocked me out for 10 days and, as much as I was looking forward to the concert, I was not looking forward to the trek into Manhattan in such weather. Pre-concert, I couldn't help make the cynical connection between Wales and the

weather and was pleased and relieved once I was inside the concert hall and out of the cold and wind-lashing rain.

It rained so hard that there just had to be a correlation, and I was compelled to get the stats to back it up: Sure enough, according to NY Metro Weather.Com, Saturday night's was the month's heaviest rainfall in the NYC area, was one of only 11 days that month where any rain fell at all, and accounted for 3 of the 3.9 inches of rain that fell in New York throughout March.

Within Carnegie Hall, the Judy and Arthur Zankel Hall fittingly resembled St. David's Hall which, I imagined, would help the choir to feel at home there. But negative impressions challenged my positive ones: the crowd was small, and I wished I had been contracted to promote the event. My stifled cough commiserated with my silent lament (such a long way for the choir to come for so few people; was the weather a deterrent?) as the unavoidably rained-on folk created a stuffy dampness in the room.

As soon as the choir members took their places on stage, the concert began, and they produced their first few joyful notes (*Craig yr Oesoedd/Rock of Ages*), I was struck by another unusual feeling. A kind of swelling which I knew was pride but was almost embarrassed to acknowledge.

I am not the first and certainly won't be the last person to be in awe of the voices that are born and produced in Wales, and my internal battle persisted while the concert continued with *Cennin Aur/Daffodils* -- Oh! The quiet note this piece ended on was breathtaking! -- And then with Maelor's own composition: *Now Sleeps the Crimson Petal: Four Madrigals on Rose Texts.* (Worth noting here were the complex trills of the third*, Upon a Bank with Roses Set About;* the pure, rich high notes, and the evocative storytelling of the fourth madrigal, *Spotless Rose* -- a piece I would *love* to have sung to me at bedtime). There was something 'other worldly' about the experience: the sounds so familiar to me, the exquisite musicality only a Welsh Choir could produce just felt jarringly out of place in the heart of New York City.

I rationalised with my 'only in Wales' sentiments, but still felt them silly and naïve -- New York City is one of the most prominent cultural capitals of the world and its audiences have a wide frame of reference. I also wrestled with where my loyalties lie, and whether I could or should own such pride. I am a NYC export living in Wales, and there I was, in New York 35 years later, arguing with myself that NY may play host to talent the world over, but sure that this was a very different experience for a NY audience, and feeling precious and uber-connected to the unique sounds that the Welsh are born and bred with. Complex? Yes. Wonderful? Yes!

My instincts proved correct and my entire internal argument was wholly justified when Paul Maelor spoke to welcome us and to introduce the choir. He confirmed that this was the first time a Welsh language choir had sung in the hall!

After his introduction, Maelor treated us to his royal pieces: *Ubi Caritas,* a revised setting of the piece commissioned to be sung at the Royal Wedding of Prince William and Catherine Middleton; and *A Welsh Prayer*, also a commissioned piece to celebrate HRH Prince Charles' birthday. Maelor has an impressive track record -- the programme notes tell us that in 2001 the *New York Times* described him as 'the most important composer to have emerged in Welsh choral music since William Mathias'; and in 2011, he was the first classical composer to hold both the classical and the pop chart No.1s at the same time with *Wherever You Are*.

The concert continued to showcase some of Wales' most profound classical talent. Reaching out and touching us with Karl Jenkins' powerful and well-loved *Adiemus*, best known as a tune from *The Lion King.* Pushing vocal boundaries with the complex *Wherever You Are Salvator Mundi: Greater Love*, requiring premium breath control for its soloists, Nia Tudur, Betsan Powys, Owen Saer and Steffan Jones, and their multitude of scales and solo humming which sounded like a flock of birds in a tree.

The concert ended with a composition Maelor dedicated to his grandmother -- the last note of this last piece was like the last breath of life. And in true form, the evening was rounded off with the Welsh National Anthem, *Hen Wlad Fy Nhadau*.

A good number of the audience were in full voice during the national anthem, which told me something about its makeup. I love the Welsh National Anthem, and I also love to sing it loud and proud, but Cordydd missed a trick by not following their anthem with an American anthem or well-loved American tune. Singing just the Welsh anthem? This might as well have been St. David’s Hall.

Cordydd’s are sounds you just cannot take for granted. The experience felt like heaven on earth.





## HUW FOULKES - Conductor

Originally from Bethel, near Caernarfon, Huw has lived in Cardiff since 2005. He earned a First Class Honours in Welsh before gaining a diploma in Broadcasting Journalism. He was a member of Glanaethwy school and performed in many places in Wales. He was one of the founders of Aelwyd y Waun Ddyfal in Cardiff and it was they who won the 2013 competition for Welsh Youth choirs. They continued to win every choral competition, not only in the Urdd Eisteddfod but also in the National Eisteddfod and the Cerdd Dant Festival. Huw is the music director for Côr Hen Nodiant (formerly Côr y Mochyn Du) and is one of Côrdydd's conductors. He is a journalist with BBC Wales and produces "Newyddion 9" (News at 9) for S4C.

---



## STEFFAN JONES - Conductor

Steffan was born in Cardiff in 1987. He was a Choral Scholar in the Worcester College Chapel Choir at Oxford University, before moving to London to study voice at the Royal College of Music. As a soloist, he has performed with the Welsh National Youth Opera, WNO MAX, and has performed Fauré's Requiem in St. Martin-in-the-Fields, and Bernstein's Mass at the BBC Proms in 2012. In 2011, he won the solo under 25 years old at the Urdd National Eisteddrod, and went on to compete for the Bryn Terfel Scholarship on S4C. On BBC Radio Cymru's 'Cyfle Cothi', he won the 'Classical Singer' prize, and was invited to sing with Wales' Three Tenors at the Wales Millennium Centre. During his time in London, he established Aelwyd yr Urdd Llundain with his peers. He was the Aelwyd's first conductor, and the ladies' choir won the first prize at the Urdd National Eisteddfod in 2012. Since November 2015, Steffan is Côr Meibion Taf's conductor, and he looks forward to a busy period with the choir, including a trip to London to sing in the 'Thousand Voices' concert at the Royal Albert Hall.



## Côrdydd

Côrdydd was founded in the year 2000.

Over the years, the choir has grown from strength to strength by ensuring success in competitions and concerts. Côrdydd have won the Choir of the Festival award at the National Eisteddfod more than any other choir, four times in all - Cardiff in 2008, Wrexham in 2011, The Vale of Glamorgan in 2012 and Denbigh in 2013. The choir have worked alongside many world renowned conductors and composers. The choir have twice performed under the baton of one of the most prolific composers of our time - Eric Whitacre. In two very special concerts at St. Davids and Llandaff Cathedrals, as part of Morten Lauridsen's 70th birthday celebrations, and on his first visit to Wales, the choir performed both Lauridsen and Paul Mealor's compositions in the company of the choral giants.
With John Rutter's blessing, the choir recorded a CD of his Requiem, and that for the first time in Welsh, with the wonderful voice of Elin Manahan Thomas keeping Côrdydd company.
The choir were chosen to perform on most of the tracks on Bryn Terfel's Christmas CD (Deutsche Gramaphon) as well as performing with him for a TV Christmas special.

They've travelled to Hong Kong, Barbados and New York, and back in 2004 they toured with the Welsh Baroque Orchestra to perform the Messiah. In 2003 the choir won BBC Radio Cymru's Choir of Wales competition, and in 2009 came top of their category in S4C's Choir of Wales competition.

In 2005, the choir were fortunate enough to sing Verdi's Requiem with the BBC Orchestra, and Brahms' Requiem alongside the Swansea Bach Choir. They have recorded radio sessions for Sunday Half Hour on Radio 2 as well as appearing on television and radio many times.

Côrdydd are recognized as one of Wales' main mixed choirs - according to Paul Mealor "these are without a doubt the best choir in Wales". The choir's aim is to keep developing their vocal quality and providing its members with the widest possible range of opportunities, as well as providing audiences with special experiences.

# Yr arweinydd côr Sioned James wedi marw yn 41 oed

Rhannu




**Mae teyrngedau wedi eu rhoi i'r arweinydd côr, Sioned James fu farw yn 41 oed.**

Yn hanu o Landysul, fe ddechreuodd ei diddordeb cerddorol yn ifanc. Roedd hi'n aelod o sawl côr, gan gynnwys Cantorion Teifi a Chôr Ieuenctid Cenedlaethol Cymru, ac wedi iddi gael hyfforddiant gan John Hugh Thomas ac Islwyn Evans, fe drodd ei llaw at fod yn arweinyddes.

Cafodd gyfleoedd cynnar i arwain côr Ysgol Gerdd Ceredigion pan roedd hi'n 16 oed, ac yn 2000 fe sefydlodd ei chôr ei hun, sef Côrdydd, yn y brifddinas.

Gyda Chôrdydd, fe gafodd sawl llwyddiant, gan gynnwys Côr Radio'r Flwyddyn y BBC yn 2003, a daeth y côr yn fuddugol yng nghystadleuaeth Côr Cymysg i lai na 45 o leisiau yn yr Eisteddfod Genedlaethol nifer o weithiau.

Fe weithiodd fel asiant ar gyfer actorion a chyflwynwyr teledu ac fel darlithydd rhan amser ar y cwrs Theatr, Cyfryngau a Cherddoriaeth ym Mhrifysgol Cymru, Y Drindod Dewi Sant. Roedd hi hefyd yn gweithio gyda chwmnïau teledu annibynnol fel cyd-drefnydd cerddorol.

Yn y ddrama 'Con Passionate' ar S4C, hi oedd yn chwarae'r rôl cyd-drefnydd ar gyfer côr meibion dychmygol, a bu'n rhan o gyfresi fel Codi Canu a Can't Sing Singers.

Fe gydweithiodd â chyfansoddwyr adnabyddus gan gynnwys Morten Lauridsen, Erik Whitacre a Paul Mealor.

Roedd Sioned yn briod â'r cyflwynydd teledu, Gareth Roberts.

**Mae teyrngedau hefyd wedi eu rhoi i dad Gareth, yr actor J O Roberts, sydd wedi marw yn 84 oed.**

## 'Cyfraniad amhrisiadwy'

Wrth roi teyrnged iddi dywedodd yr arweinydd corau Huw Foulkes: "Mae cyfraniad Sioned wedi bod yn hynod amhrisiadwy i fyd corawl yng Nghymru a thu hwnt.

"Dw i'n cofio fel cyw arweinydd yn dechrau efo'r Waun Ddyfal flynyddoedd yn ôl, ac edrych fyny at Sioned fel rhywun oedd mor eangfrydig o ran ei cherddoriaeth ac mi oedd ei gweledigaeth hi mor amlwg."

Ychwanegodd: "Dw i'n meddwl fod yr aelodau ar hyd y blynyddoedd mor ddiolchgar am y profiadau hynny 'da ni wedi cael ganddi, a'r sylfaen gorawl mae hi wedi'i gosod, nid yn unig yng Nghaerdydd ond tu hwnt. Yn sicr, mae arweinyddion eraill yn dysgu ganddi hi."

"Mi oedd hi'n llwyddo rhywsut, mi oedd yr hud ma' ganddi hi fel arweinydd i sicrhau ein bod ni yn cyrraedd y safon uchaf."

## 'Arweinydd wrth reddf'

Dywedodd Golygydd Radio Cymru, Betsan Powys oedd hefyd yn aelod o'r côr: "Roedd Sioned yn gerddor hyd flaenau ei bysedd, yn arweinydd wrth reddf. Roedd hi'n rhyferthwy o bersonoliaeth, yn llachar, yn llawn hiwmor, un o'r bobl brin hynny oedd yn gallu ac yn mynnu gwneud i bethau ddigwydd.

"Fyddai hi fyth yn ymddiheuro am dorri'i chwys ei hun - hawdd ai peidio, fyth am ildio chwaith.

"Ond ar ei gorau, roedd ganddi'r ddawn i gyffwrdd â bywyd rhywun. Fe fydd 'na griw mawr yn cofio'r fraint o'i nabod hi ac yn teimlo'r golled."

# *Y Dinesydd Medi 2016*

## TEYRNGED I SIONED JAMES



'Altos - chi'n canu fel ieir'... 'Tenoriaid - chi'n trrrrrrroi arna' i'... Dim ond rhai o'r cyfarchion corawl, wythnosol fu'n wynebu aelodau Côrdydd ar hyd y blynyddoedd. Yn ei ffordd ddihafal ei hun, roedd Sioned yn llwyddo i gael y gorau bob tro. Roedd 'na hud yn perthyn iddi o flaen côr - sbarc a direidi heb eu hail yn anelu am yr uchelfannau.

Nôl yn y flwyddyn 2000, aeth criw o ffrindiau ati i sefydlu Côrdydd. Mewn cyfarfod yn y Cameo, gofynnwyd y cwestiwn - 'wel pwy sydd am ein harwain?' Yn ddiflewyn ar dafod, dyma Sioned yn cynnig. Ac felly y bu. Sioned oedd yn iawn bob tro a phetai rhywun arall yn cwestiynu, yr ateb fydda' 'sai'n becso'. Fe arweiniodd y côr at sawl buddugoliaeth, fe greodd gymdeithas o gyfeillgarwch ac fe lwyddodd lle mae sawl un arall wedi methu.

Pwy, ond Sioned, fyddai'n gallu llunio e-bost at neb llai na'r arweinydd toreithiog, Eric Whitacre gan ei berswadio i wneud cyngerdd â'r côr? Fe berfformiodd Côrdydd ddwywaith dan ei arweiniad mewn cyngherddau mawreddog yn Neuadd Dewi Sant a Neuadd Hoddinott. Ymlaen wedyn at gyngherddau gyda Paul Mealor a Morten Lauridsen - yntau'n dewis treulio cyfnod dathlu ei ben blwydd yn 70 oed gyda'r côr mewn cyngherddau yn Nhyddewi a Llandaf. Rwy'n herio unrhyw un i feddwl am arweinydd arall yng Nghymru sydd wedi cyflawni'r fath orchestion corawl â Sioned mewn cyfnod mor fyr.

Ac at y cystadlu. Roedd hi'n cymryd hwnnw o ddifri hefyd. Doedd ail na thrydydd ddim yn opsiwn ac wrth sgwrsio ar y ffôn am oriau ar adegau annaearol weithiau, byddai'r ddau ohonom yn dod i'r casgliad nad oedd unrhyw un yn mynd i gystadleuaeth i golli. Roedd Sioned yn treulio oriau yn dewis y darnau iawn ac yn trin a thrafod rheini am fisoedd lawer cyn gwneud y penderfyniad terfynol. Ond roedd hi am i'r cyfan fod yn berffaith. Does dim llawer o gorau all ddweud iddyn nhw ddod i'r brig yn y Genedlaethol 11 o weithiau a sicrhau gwobr Côr yr Ŵyl fwy nag unrhyw un arall - 5 erbyn hyn a Sioned yn gyfrifol am y weledigaeth ymhob cystadleuaeth.

Ym mis Chwefror eleni, fe arweiniodd Sioned y côr mewn cyngerdd cwbl ysbrydol yn Arberth. Am y tro cyntaf ers misoedd, fe safodd o flaen y côr gan arwain ei hoff ganeuon. Am y tro olaf, fe ymddangosodd y sbarc a'r direidi.

Does gen i ddim dwywaith y byddwn yn dathlu cyfraniad Sioned i fyd corawl Cymru a thu hwnt am ddegawdau i ddod. Mae'n ddylanwad enfawr, yn golled bersonol i nifer ohonom ac mae Cymru'n dlotach lle hebddi.

Bydd oedfa i ddathlu bywyd Sioned yn y Tabernacl ar yr Ais ddydd Sadwrn, Hydref y 15fed am 2pm. Croeso i bawb.

*Huw Foulkes*

# Sioned James (1974-2016)

**Betsan Powys**

*Cerddor, asiant ac arweinydd corawl ysbrydoledig a oedd yn mynnu'r safonau uchaf, ond yn credu mewn mwynhau a chael hwyl yr un pryd.*


Llun: Keith Morris

'Dwn i ddim o ble ddaeth e ond 'rhyferthwy' oedd y gair a ddaeth i'r meddwl o glywed am farwolaeth Sioned James. Roedd hi'n sicr yn rhyferthwy o ferch, yn gerddor ac arweinydd côr wrth reddf, yn un o'r bobol lachar yna sy'n gwneud argraff ar fywyd rhywun. Ond fe ddaeth y newydd fel rhyferthwy hefyd. Deugain ac un oedd Sioned. Fe fu farw lawer, lawer rhy ifanc.

Un o Sir Gaerfyrddin oedd hi, wedi'i magu ym Mhontweli ger Llandysul. Heblaw am 'siarad' meddai ffrindiau bore oes, cerddoriaeth oedd y cariad mawr. Yn ddisgybl yn Ysgol Dyffryn Teifi, roedd 'joio' yn bwysig ac eto, fe ddenodd sylw cerddorion ac arweinyddion a ddaeth yn ffrindiau oes ac yn arwyr iddi – Islwyn Evans a John Hugh Thomas. Fe ddysgodd am ganu, a derbyn gwahoddiad Islwyn i gamu o rengoedd y côr i ddechrau dysgu'r grefft o arwain.

Yna'n ddeunaw oed, trobwynt. Ar ôl damwain car ddychrynllyd a gorfod treulio misoedd yn gwella o'i hanafiadau, fe wnaeth Sioned fargen â hi ei hun na fyddai'n gwastraffu'r un awr, na'r un owns o'r dalent oedd ganddi. Fe enillodd radd dosbarth cyntaf mewn Cymraeg a Cherddoriaeth yng Nghaerdydd ac yn y flwyddyn 2000, mynd ati i ffurfio côr cymysg newydd.

Babi Sioned oedd Côrdydd, a hi oedd y bos. Pwyllgor? Dim ffiars. Yn ei sodlau *stiletto*, Sioned oedd piau'r dweud, a'r dweud hwnnw oedd bod croeso i bawb ymuno, a bod hwyl a chymdeithasu lawn mor bwysig â chanu. Ac eto roedd hi'n benderfynol o wneud ei marc, o gyrraedd y safon uchaf un. Sut? Drwy siarad yn blaen. 'Sops, chi'n swnio fel ieir!' 'Ych! Diweddeb cerdd dant! Chi'n trrrrrroi arna i!'

Yn 2008 fe sefydlodd Gôr y Mochyn Du, neu'r 'Owps' fel roedd hi'n eu galw. Cyn pen dim, roedden nhw hefyd yn anelu'n uchel, yn 'trrrrrroi' ar eu harweinyddes ond yn cyrraedd y brig. Diolch bod Sioned yn llowcio cerddoriaeth gorawl, yn treulio oriau bwygilydd yn gwrando, yn cribinio'r we am ddarnau newydd, diddorol. O Rachmaninov i Dolly Parton, câi ei hysbrydoli. Roedd ei phriodas â Gareth yn Llandysul yn wledd o flodau a cherddoriaeth fendigedig, ac yn gyson byddai'n siarsio'r ddau a oedd yn graig iddi, ei mam, Nest, a Gareth, i wrando ar y darnau a oedd wedi gwneud argraff arni. 'Be ti'n meddwl? Gwranda! Gwranda eto!'

Fe ddaeth yn asiant, a dysgu sut i agor drysau. Diolch i styfnigrwydd Sioned y cafodd Côrdydd ganu gwaith John Rutter yn Gymraeg, gweithio gydag Eric Whitacre a Morten Lauridsen – dau o gewri'r byd corawl rhyngwladol – cael gwahoddiad gan Deutsche Grammophon i ganu gyda Bryn Terfel, a chanu gwaith Paul Mealor ar lwyfan Carnegie Hall yn Efrog Newydd. A'r tynnu coes yn parhau. 'Ma' ambell un ohonoch chi'r jawled wedi dod ffor bell iawn ers dyddie'r "Cennin Aur"!'

Ond ers 'chydig flynyddoedd roedd hi'n teimlo fel 'tai haul Sioned wedi diflannu tu ôl i gwmwl. Roedd hi'n sâl, yn ymladd brwydr galed, a'i gafael ar yr awenau yn gorfod llacio. Fis Chwefror, un pnawn Sul, fe ddaeth yr haul llachar yna i'r golwg am un tro olaf, un cyfle arall i ganu dan law Sioned ar ei gorau yng Ngŵyl Gerdd Arberth. Atgof i'w drysori.

Drannoeth y newydd am ei marwolaeth yn Uned Gofal Dwys Ysbyty Tywysog Phillip, Llanelli, fe ddaeth criw o aelodau'r ddau gôr ynghyd i fod yn gefn ac yn gwmni i'n gilydd. Allen ni 'mond diolch am ferch ac arweinydd prin, un â sbarc ac ysfa dragwyddol yn cyniwair drwyddi i roi ei stamp ei hun ar y byd o'i chwmpas.

Mae 'na dawelwch yn y llecyn hudolus yn Nhrefdraeth lle mae Sioned wedi'i chladdu, ond fe glywch chi'i llais yn pefrio drwy'r côr am amser maith i ddod. Dyna'n haddewid ni i Nest, i Gareth – ac i'r bos.

*Bu farw Sioned James ar 19 Gorffennaf 2016.*

BBC | Hafan | Newyddion | Mwy

Adrannau

Hafan

# Côrdydd yn dod i'r brig yn yr Ŵyl Ban Geltaidd

8 Ebrill 2018




**Mae Côrdydd wedi cipio gwobr Côr yr ŵyl yn yr Ŵyl Ban Geltaidd.**

Cafodd y côr o Gaerdydd y wobr am y perfformiad gorau ar ôl dod i'r brig yng nghystadleuaeth y Côr Cymysg Digyfeiliant a'r Côr Agored gyda chyfeiliant.

## Llwyddiant i Gymru

Mae'r ŵyl wedi ei chynnal eleni rhwng 3-8 o Ebrill yn Letterkenny, Iwerddon a'r bwriad yw hyrwyddo cerddoriaeth, iaith, dawns a chwaraeon y chwe chenedl Geltaidd.

Yn ystod yr wythnos mae nifer o ddigwyddiadau fel gweithdai dawns ac iaith, sesiynau stori a pherfformiadau wedi'u cynnal.

Nid Côrdydd oedd yr unig gôr o Gymru i gael llwyddiant.

Fe wnaeth Eryrod Meirion o ardal Llanuwchllyn hefyd gipio'r wobr gyntaf yng nghategori'r Côr Meibion a'r Côr Gwerin ac fe ddaethont yn ail yn y gystadleuaeth Côr Agored gyda chyfeiliant.




Branwen Gwyn, cyfeilydd y côr gyda'r arweinydd Huw Foulkes

Cafodd Côr Dre, Caernarfon y brif wobr am y Côr Gwledig ac ail yn y Côr Gwerin.

Roedd Hogia'r Ddwylan yn ail yn y gystadleuaeth i gorau meibion ac fe enillodd Cômarfon y wobr am gân orau yr ŵyl gan gôr nad oedd wedi ennill gwobr.

Dywedodd arweinydd Côrdydd, Huw Foulkes ei bod hi'n anrhydedd ennill y brif wobr ac y byddan nhw yn ymweld â'r ŵyl eto yn y dyfodol.

- **Enillwyr Cân i Gymru'n olaf yn yr Ŵyl Ban Geltaidd**

"Dyma'r tro cynta i ni fel côr fynd i'r Ŵyl ac mae'n fraint cipio'r brif wobr yn erbyn cymaint o gorau arbennig.

"Ond roedd yr Ŵyl yn llawer mwy na'r cystadlu ac yn sicr, mi wnaethon ni'n fawr o'r elfen gymdeithasol hefyd.

"Roedd yr awyrgylch a'r mwynhau ar ôl y cystadlu gyda'r corau eraill yn rhywbeth wnawn ni gofio am amser hir iawn.

"Dwi'n falch iawn o'r criw - nid yn unig am fod yn llwyddiannus, ond am fod yn gymdeithas o ffrindiau gwych! Rydan ni gyd yn edrych 'mlaen at y trip nesa'n barod."

2018 CD

## Côrdydd

Ers i griw o ffrindiau ddod ynghyd yn y brifddinas i ffurfio côr cymysg o dan arweiniad Sioned James yn y flwyddyn 2000, mae Côrdydd wedi'i sefydlu ei hun fel un o gorau mwyaf llwyddiannus Cymru. Mae'r côr wedi ennill yn yr Eisteddfod Genedlaethol un ar ddeg o weithiau, a chipio teitl Côr yr Ŵyl ar bum achlysur. Fe ddaeth i'r brig yng nghystadleuaeth Corau Radio Cymru yn 2003, ac ennill categori'r Corau Cymysg yng nghystadleuaeth Côr Cymru ar S4C ddwywaith, yn 2009 a 2017.

Dros y blynyddoedd mae Côrdydd wedi canu amrywiaeth eang o ddarnau ar lwyfannau ar draws Cymru a thu hwnt, gan deithio i Barbados a Hong Kong, perfformio yn Neuadd Carnegie yn Efrog Newydd, ac fel rhan o Ŵyl Gymreig Ontario yng Nghanada. Bu'r côr yn ffodus hefyd o gael cydweithio â rhai o gyfansoddwyr corawl enwoca'r byd, gan gynnwys Eric Whitacre, Paul Mealor a Morten Lauridsen.

Ar wahân i ganu ar CD Nadolig Bryn Terfel, a gafodd ei ryddhau yn 2010, dyma ail CD y côr. Recordiwyd y cyntaf, sy'n gasgliad o ganeuon John Rutter, yn 2007.

Detholiad amrywiol yw'r recordiad hwn o rai o ffefrynnau Côrdydd, yn adlewyrchiad o ddatblygiad y côr a chymdeithas arbennig o ffrindiau dros y ddwy flynedd ar bymtheg diwethaf.

*Since a group of friends came together in Cardiff to form a new mixed choir in the year 2000 under the baton of Sioned James, Côrdydd has established itself as one of Wales' most successful choirs. It has won at the National Eisteddfod eleven times, and claimed the main title of 'Choir of the Festival' on five occasions. Côrdydd won BBC Radio Cymru's choral competition in 2003, and the mixed choir category in S4C's 'Côr Cymru' twice, in 2009 and 2017.*

*Over the years, the choir has performed a varied repertoire on numerous stages in Wales and beyond, and has travelled to Barbados and Hong Kong, performed in Carnegie Hall in New York, and as part of the Ontario Welsh Festival in Canada. Côrdydd has also been fortunate to work with some of the world's most famous choral composers, including Eric Whitacre, Paul Mealor and Morten Lauridsen.*

*Apart from singing on Bryn Terfel's Christmas CD in 2010, this is the choir's second recording. Their first CD, which is a collection of John Rutter's songs, was recorded in 2007.*

*This latest CD is a selection of some of Côrdydd's favourite songs. It is a reflection of the choir's development, and of a special community of friends over the past seventeen years.*



## Huw Foulkes
## Arweinydd/*Conductor*

Mae Huw wedi bod yn arwain ac yn canu mewn corau ers sawl blwyddyn. Enillodd wobrau cenedlaethol fel unawdydd a chyda nifer o gorau. Roedd yn un o gyd-sylfaenwyr Aelwyd y Waun Ddyfal yng Nghaerdydd a bu'n arwain côr yr aelwyd am saith mlynedd. Fe ddaethon nhw i'r brig sawl gwaith yn Eisteddfod yr Urdd, yr Eisteddfod Genedlaethol a'r Ŵyl Gerdd Dant. Uchafbwynt y cystadlu oedd cael eu coroni'n Gôr Ieuenctid Cymru yng nghystadleuaeth Côr Cymru ar S4C yn 2013.

Bu Huw'n perfformio'n gyson tra oedd yn aelod o Ysgol Glanaethwy, ac fe ganodd gydag Ysgol Gerdd Ceredigion yng nghystadleuaeth Côr y Byd yn Eisteddfod Gerddorol Ryngwladol Llangollen yn 2009. Yn ogystal ag arwain Côrdydd, mae Huw yn gyfrifol am Gôr Hen Nodiant, sydd wedi sicrhau'r wobr gyntaf yn yr Eisteddfod Genedlaethol ar wyth achlysur. Astudiodd Huw ym Mhrifysgol Caerdydd gan raddio gyda dosbarth cyntaf cyn mynd ymlaen i ddilyn cwrs ôl-radd mewn Newyddiaduraeth Darlledu. Erbyn hyn, mae'n gweithio fel cynhyrchydd ar raglen 'Newyddion 9' ac yn cyflwyno'r cwis cerdd, 'Cythrel Canu' ar S4C.

*Huw has been a choral conductor and a member of many choirs over several years. He's won national prizes as a soloist and with numerous choirs. He was one of the co-founders of 'Aelwyd y Waun Ddyfal' in Cardiff, and conducted their choir for seven years. During that period, they won several times at national level, and their highlight was winning the title of Youth Choir of Wales in S4C's 'Côr Cymru' in 2013.*

*Huw performed regularly as a member of Ysgol Glanaethwy, and was a member of Ysgol Gerdd Ceredigion for the Choir of the World competition at the Llangollen International Musical Eisteddfod in 2009. Apart from conducting Côrdydd, Huw also conducts Côr Hen Nodiant, who has secured first prize at the National Eisteddfod eight times. Huw studied at Cardiff University, where he was awarded a first class honours degree, before studying a post-graduate course in Broadcast Journalism. He now works as a producer on 'Newyddion 9' – S4C's daily news programme – and presents the music quiz 'Cythrel Canu', also on S4C.*

## Steffan Huw Watkins
## Dirprwy Arweinydd/*Deputy Conductor*



Daw Steffan yn wreiddiol o bentre'r Fforest, ger Pontarddulais, ond mae erbyn hyn wedi ymgartrefu yng Nghaerdydd, ar ôl astudio ar gyfer gradd gydanrhydedd yn y Gymraeg a Cherddoriaeth yn y Brifysgol yno. Mae'n hanu o deulu cerddorol, a bu ei ewythr, y cerddor Huw Tregelles Williams, yn ddylanwad mawr ar ei yrfa yn y maes hwn. Yn bianydd, trwmpedwr a chantor, mae Steffan wedi perfformio fel aelod o nifer o gerddorfeydd a bandiau pres, chwyth, a jazz, ynghyd â nifer o wahanol gorau. Mae'n gyn-aelod o Gôr Ieuenctid Sir Gaerfyrddin, y Tair Sir, a Chôr Ieuenctid Cenedlaethol Cymru. Fel myfyriwr, roedd yn aelod o Gôr Siambr y Brifysgol o dan arweiniad y maestro, John Hugh Thomas, ac fe fu'n aelod o gerddorfa siambr y Brifysgol. Ynghyd â Huw Foulkes, roedd yn un o sylfaenwyr Aelwyd y Waun Ddyfal, lle roedd yn gyfrifol am arwain Côr Meibion yr Aelwyd, ynghyd â chynorthwyo fel dirprwy arweinydd i'r Côr Cymysg. Mae Steffan bellach yn gweithio ym myd y cyfryngau. Yn aelod o Gôrdydd ers nifer o flynyddoedd, ef a gafodd yr anrhydedd o arwain Cymanfa Ganu'r Cymry yn ystod ymweliad y côr ag Efrog Newydd. Ers 2014, mae hefyd yn Gyfarwyddwr Cerdd Côr Godre'r Garth. Yn ogystal â bod yn gyfeillion, mae gan Steffan a Huw berthynas gerddorol sy'n ymestyn dros un ar ddeg mlynedd, a'r gobaith yw y gall hynny barhau ymhell i'r dyfodol.

*Steffan comes originally from the village of Forest, near Pontarddulais, but has settled in Cardiff since graduating with a joint honours degree in Music and Welsh at the University there. He comes from a musical family, and his uncle, the musician Huw Tregelles Williams, has been a great influence on his musical career. Steffan is a pianist, trumpeter and chorister, and has performed with several brass, jazz and wind bands and orchestras, as well as various choirs. He is a former member of the Carmarthenshire Youth Choir, the Three Counties Choir and the National Youth Choir of Wales. As a student, he was a member of Cardiff University's Chamber Choir, conducted by the maestro John Hugh Thomas, as well as the University's Chamber Orchestra. Together with his friend, Huw Foulkes, Steffan was one of the founder members of 'Aelwyd y Waun Ddyfal', where he was responsible for conducting the Male Voice Choir, and was the deputy conductor of the Mixed Choir. Steffan now works in the media industry. He has been a member of Côrdydd for several years, and during the choir's visit to New York, he had the privilege of conducting the Welsh Cymanfa Ganu in the city. Since 2014, he has also been the Musical Director of Côr Godre'r Garth. Steffan and Huw have a musical relationship that spans over eleven years, and the hope is that this will continue for many years to come.*

## Branwen Gwyn
## Cyfeilydd/*Accompanist*



Roedd Branwen yno yn y cyfarfod cyntaf tyngedfennol hwnnw pan benderfynwyd sefydlu côr i bobl ifanc yn y brifddinas. Gan fod ganddi gryn dipyn o brofiad cyfeilio, yn Ysgol Glantaf ac fel rhan o'i gradd Gerddoriaeth ym Mhrifysgol Cymru, Bangor, gofynnwyd iddi fod yn gyfeilydd i'r côr newydd cyffrous hwn. Mae'r gweddill, fel maen nhw'n ei ddweud, yn hanes!

Bu Branwen yn gyflwynydd ar S4C am bron deng mlynedd, cyn camu y tu ôl i'r camera i sgriptio a chynhyrchu rhaglenni plant. Mae hi bellach yn gweithio ar ei liwt ei hun yn y cyfryngau ac fel cyfeilydd llawrydd. Mae hi hefyd yn astudio ar gyfer MA mewn Astudiaethau Cyfieithu Proffesiynol.

Mae Branwen yn briod ag Elis (un o faswyr cadarn Côrdydd), ac mae ganddyn nhw ferch fach o'r enw Esyllt, sy'n un o brif ffans y côr! Mae Branwen yn falch iawn o fod yn un o sylfaenwyr Côrdydd.

*Branwen was present at the first crucial meeting, when it was decided that a new choir for young people would be established in the capital city of Wales. Based on her experience of being an accompanist, at Ysgol Glantaf and as part of her Music degree at the University of Wales, Bangor, she was asked to accompany this new exciting choir. The rest, as they say, is history!*

*Branwen was a television presenter on S4C for nearly 10 years, before stepping behind the camera as a scriptwriter and producer of children's programmes. She currently works freelance within the media and as an accompanist. She's also studying for an MA in Professional Translation Studies.*

*Branwen is married to Elis (a member of Côrdydd's bass section), and they have a young daughter called Esyllt, who is one of the choir's biggest fans! Branwen is very proud to be one of Côrdydd's founder members.*

2018

galeri

# Cyngerdd Côrdydd a Chôr Glanaethwy

Mae Côrdydd wedi sefydlu ei hun fel un o gorau mwyaf llwyddiannus Cymru. Mae'r côr wedi ennill yn yr Eisteddfod Genedlaethol unarddeg o weithiau, a chipio teitl Côr yr Ŵyl ar bum achlysur. Fe ddaeth i'r brig yng nghystadleuaeth Corau Radio Cymru yn 2003, ac ennill categori'r Corau Cymysg yng nghystadleuaeth Côr Cymru ar S4C ddwywaith, yn 2009 a 2017. Wrth i'r côr ddathlu lansio eu CD diweddara', dyma gyfle i gynnal noson o adloniant yng nghwmni yn o gorau eraill amlyca' Cymru, Côr Glanaethwy.

**23.06.2018** | 19:00 - Tocynnau



Theatr Blake, Trefynwy
7.30 y.h. Nos Sadwrn 19eg o Fai 2018

*Blake Theatre, Monmouth*
*7.30pm Saturday 19th May 2018*

## Cyngerdd Mawreddog

*Gala Concert*



# Côrdydd

**Arweinydd /** *Conductor* **Huw Foulkes**
**Cyfeilydd /** *Accompanist* **Branwen Gwyn**

**Unawdwyr / Soloists**

**Gwawr Edwards - (Soprano)**

**Charlotte Poulter (Telyn / Harp)**

**Gyda / with**

**Ysgol Gymraeg Y Fenni**

Er budd RhAG (Rhieni Dros Addysg Gymraeg - (Rhif Elusen 1153403)

## Côrdydd

**Ers i griw o ffrindiau ddod at ei gilydd yn y brifddinas i ffurfio côr cymysg o dan arweiniad Sioned James yn y flwyddyn 2000, mae Côrdydd wedi sefydlu ei hun fel un o gorau mwyaf llwyddiannus Cymru. Mae'r côr wedi ennill yn yr Eisteddfod Genedlaethol unarddeg o weithiau, a chipio teitl Côr yr Wyl ar bum achlysur. Fe ddaeth i'r brig yng nghystadleuaeth Corau Radio Cymru yn 2003, ac ennill categori'r Corau Cymysg yng nghystadleuaeth Côr Cymru ar S4C ddwywaith, yn 2009 a 2017. Mae Côrdydd wedi perfformio amrywiaeth eang o ddarnau ar lwyfannau ar draws Cymru a thu hwnt, gan deithio i Barbados a Hong Kong, perfformio yn Neuadd Carnegie yn Efrog Newydd, ac fel rhan o Wyl Gymreig Ontario yng Nghanada. Bu'r côr yn ffodus hefyd o gael cydweithio â rhai o gyfansoddwyr corawl enwoca'r byd, gan gynnwys Eric Whitacre, Paul Mealor a Morten Lauridsen. Ar wahân i ganu ar gryno ddisg Nadolig Bryn Terfel, a gafodd ei rhyddhau yn 2010, mae'r côr wedi rhyddhau dau gryno ddisg.**

*Since a group of friends came together in the Capital to form a mixed choir under the leadership of Sioned James in the year 2000, Côrdydd has established itself as one of the most successful choirs in Wales. The choir has won in the National Eisteddfod of Wales 11 times, and taken the title "Choir of the Festival" 5 times. They won in the Radio Cymru choir competition in 2003 and won the mixed choir category in the "Choir of Wales" competition on S4C twice in 2009 and 2017. Côrdydd has performed a wide range of pieces on stages across Wales and beyond, travelling to Barbados and Hong Kong, performing in the Carnegie Hall in New York and as part of the Ontario Welsh Festival in Canada. The choir have been fortunate too to work with some of the world's most famous choral composers, including Eric Whitacre, Paul Mealor and Morten Lauridsen. Apart from performing on Bryn Terfel's Christmas CD released in 2010 the choir have released two CD's.*

## Huw Foulkes - Arweinydd / Conductor

**Mae Huw wedi bod yn arwain ac yn canu mewn corau ers sawl blwyddyn. Enillodd wobrau cenedlaethol fel unawdydd a chyda nifer o gorau. Roedd yn un o gyd-sylfaenwyr Aelwyd y Waun Ddyfal yng Nghaerdydd a bu'n arwain côr yr aelwyd am saith mlynedd. Fe ddaethon nhw i'r brig sawl gwaith yn Eisteddfodau'r Urdd, yr Eisteddfod Genedlaethol a'r Wyl Gerdd Dant. Uchafbwynt y cystadlu oedd cael eu coroni'n Gôr Ieuenctid Cymru yng nghystadleuaeth Côr Cymru ar S4C yn 2013. Yn ogystal ag arwain Côrdydd, mae Huw yn gyfrifol am Gôr Hen Nodiant sydd wedi sicrhau'r wobr gyntaf yn yr Eisteddfod Genedlaethol ar saith achlysur. Astudiodd Huw ym Mhrifysgol Caerdydd gan raddio gyda dosbarth cyntaf cyn mynd ymlaen i ddilyn cwrs ôl-radd mewn Newyddiaduraeth Darlledu. Erbyn hyn, mae'n gweithio fel cynhyrchydd ar raglen 'Newyddion 9' ac yn cyflwyno'r cwis cerddorol, 'Cythrel Canu' ar S4C.**

*Huw has been leading and singing in choirs for a number of years. He won national prizes as a soloist in a number of choirs. He was one of the founder members of "Aelwyd y Waun Ddyfal" in Cardiff and he conducted the choir for 7 years. They won a number of times in the Urdd Eisteddfod, the National Eisteddfod and the Cerdd Dant Festival. Highlight of the competing was being crowned Wales Youth Choir in the competition Côr Cymru on S4C in 2013. In addition to leading Côrdydd Huw is also responsible for Côr Hen Nodiant who have secured first prize in the National Eisteddfod of Wales on 7 occasions. After graduating from Cardiff University with a first class degree Huw undertook a postgraduate course in Broadcasting Journalism. By now he works as a producer on "News at 9" and introduces the musical quiz programme "Cythrel Canu" on S4C.*

## Branwen Gwyn - Cyfeilydd / Accompanist

**Roedd Branwen yno yn y cyfarfod cyntaf tyngedfennol hwnnw, pan benderfynwyd sefydlu côr i bobl ifanc yn y brifddinas. Gan fod ganddi gryn dipyn o brofiad cyfeilio a gradd gerddoriaeth, gofynnwyd iddi fod yn gyfeilydd i'r côr newydd cyffrous hwn. Bu Branwen yn gyflwynydd ar S4C am bron i 10 mlynedd, cyn camu y tu ôl i'r camera i sgriptio a chynhyrchu rhaglenni plant. Mae hi bellach yn gweithio ar ei liwt ei hun yn y cyfryngau ac fel cyfeilydd llawrydd. Mae Branwen yn briod ag Elis - un o faswyr gwaelod y côr, ac mae ganddyn nhw ferch fach o'r enw Esyllt.**

*Branwen was at that first momentous meeting when it was decided to establish a choir for young people in the Capital city. As she had extensive experience as an accompanist and a musical degree she was asked to accompany this new exciting choir. Branwen was a presenter on S4C for almost 10 years before stepping behind the camera to script and produce children's programmes. She now works on her own account in the media and as a freelance accompanist. Branwen is married to Elis a member of the choir's bass section and they have a daughter Esyllt.*

2019 CD



**Côrdydd (Huw Foulkes, cyfarwyddwr)**
Côrdydd ydy un o gorau mwyaf llwyddiannus a blaenllaw Cymru. Enillodd y côr yn yr Eisteddfod Genedlaethol 12 o weithiau a chipio teitl *Côr yr Ŵyl* ar chwe achlysur. Enillodd wobr y côr gorau yn yr Ŵyl Ban-Geltaidd a chipiodd Tlws Karl Jenkins a theitl Côr y Corau yng Ngŵyl Gorawl Ryngwladol Cymru. Ers ei sefydlu yn 2000, mae'r côr wedi teithio i Hong Kong a Barbados, perfformio yn Neuadd Carnegie yn Efrog Newydd a chymryd rhan yng ngŵyl Gymreig Ontario yng Nghanada. Mae Côrdydd wedi gweithio gyda rhai o gyfansoddwyr mwyaf blaenllaw y byd, gan gynnwys Morten Lauridsen, Eric Whitacre a Paul Mealor.

**Côrdydd (Huw Foulkes, director)**
Côrdydd is one of the most successful and prominent choirs in Wales. The choir has won prizes at the National Eisteddfod 12 times and claimed the title of *Choir of the Festival* on six occasions. It won the best choir prize at the Pan Celtic Festival and received the Karl Jenkins Prize and the *Côr y Corau* (Choir of Choirs) title at the International Choir Festival of Wales. Since it was established in 2000, the choir has travelled to Hong Kong and Barbados, performed at Carnegie Hall in New York, and taken part in the Ontario Welsh Festival in Canada. Côrdydd has worked with some of the world's leading composers, including Morten Lauridsen, Eric Whitacre and Paul Mealor.

# Côrdydd yw côr y dydd yn ffeinal Côr Cymru 2022



**5 Ebrill 2022**

Ar ôl tair blynedd hir o aros, roedd Côr Cymru yn ôl dros y penwythnos. Wrth y llyw roedd Heledd Cynwal a Morgan Jones yn arwain y gystadleuaeth gorawl yn fyw o Ganolfan y Celfyddydau yn Aberystwyth.

Pum côr oedd yn mynd ben ben a'i gilydd am deitl Pencampwyr Côr Cymru 2022 a phedair mil o bunnau yn y fantol.

Y tri beirniad rhyngwladol, Karen Gibson, Wyn Davies ac Anna Lapwood oedd â'r penderfyniad olaf os taw CF1, Côr Ieuenctid Môn, John's Boys, Heol y March neu Côrdydd oedd am gipio'r teitl eleni.

Bu croeso mawr wrth i ganu corawl byw ddychwelyd, ac medd y beirniad Wyn Davies wrth bendroni dros ei benderfyniad "…am y tro cynta' wi'n meddwl yn y gystadleuaeth, `da ni yn hollol gytûn ar un côr".

Yn fuddugol eleni ac yn ennill teitl Pencampwyr Côr Cymru 2022 oedd Côrdydd, o Gaerdydd, o dan arweiniad Huw Foulkes.

Â'i ben yn ei ddwylo wedi i Wyn Davies gyhoeddi'r enillydd, roedd y sioc yn amlwg i Huw.

"Ennill Côr Cymru yn ddi-os ydi uchafbwynt llwyddiannau Côrdydd.

"Roedd y profiad o rannu llwyfan efo pedwar côr mor safonol yn wefreiddiol.

"Diolch iddyn nhw am gystadleuaeth a hanner. Ma' dod i'r brig yn golygu cymaint ag yn binacl dau ddegawd yn hanes y côr," meddai Huw Foulkes, arweinydd y côr cymysg o Gaerdydd.

"Mae'n deimlad anhygoel" medd Huw Foulkes. "Ar ôl yr holl waith caled, mae'n profi fod hynny yn talu ar ei ganfed.

"Ma' 'niolch i yn enfawr i bob aelod am roi cant y cant tu ôl i bob nodyn a gair."

Dyw ymarfer côr heb ddod heb ei anawsterau oherwydd y pandemig, ond fe ddywedodd Huw Foulkes bod "… cyfnod Covid wedi rhoi her amlwg i gorau.

"Ond wnaeth yr ysfa i fod yn rhan o gôr ddim diflannu ac roedd cael her fel Côr Cymru yn gwbl allweddol er mwyn sicrhau fod pawb yn dod nôl at ei gilydd."

Cyn y cyhoeddiad mawr, camodd merch fach saith oed, Amelia Anisovych o Wcráin, ar lwyfan Canolfan y Celfyddydau yn Aberystwyth i ganu fersiwn o 'Let it Go' o'r ffilm 'Frozen' ac anthem genedlaethol Wcráin.

Bu cymeradwyaeth wresog i'r ferch fach gyda'r gynulleidfa i gyd ar eu traed. Ymatebodd Huw Foulkes: "Roedd hi'n noson emosiynol ar sawl lefel ac roedd clywed Ameliia yn canu yn cyffwrdd calonnau. Cawson wefr."

Y cwmni teledu Rondo Media sy'n gyfrifol am raglenni Côr Cymru ar gyfer S4C.

# COMPETITION RESULTS

## Hull International Choir Competition 2023

### Result Category A1 - Mixed Choirs - Difficulty Level I

| Name of the group | Conductor | Country | Points | Diploma | CW | GP | CP | SP | Q |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cordydd | Huw Foulkes | Great Britain/Wales | 23,38 | GOLD III | ☑ | ☐ | ☐ | ☐ | I |
| Southern Spirit Singers | Andy King | Great Britain | 21,58 | GOLD II | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | II |
| Choros Amici | Christopher Mallinson | Great Britain | 19,69 | SILVER X | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | |






Parti i Dathlu 25 mlynedd

4 Hydref 2025



**Huw Alun Foulkes**
2d ·

🎉 Pen blwydd Hapus Côrdydd yn 25! 🎉

Nes i 'rioed feddwl wrth fentro i festri Salem yn 2009 a chanu rhan tenor 2 Rytmus yn fy ymarfer cynta' y baswn i'n cael y fraint o arwain flynyddoedd wedyn.

Syrcas o gôr a chymuned o ffrindia' arbennig a ma'n diolch mwya' ni i Sioned. Heb ei sylfaen, ei dawn a'i hegni cerddorol cwbl unigryw, fydda' repertoires corau Cymru dipyn tlotach.

Ma' 'na lwyth i ddod dros y misoedd nesa' felly ymlaen at flwyddyn o ddathlu a chwarter canrif arall!









